



Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor

**a baratowyd o dan
Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor

Cymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan adran 14 (1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 1 Mawrth 2013.

1 Rhagarweiniad

1.1 Y cyd-destun deddfwriaethol

Deddf Yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011¹

O dan Adran 5 Deddf Yr Iaith Gymraeg 1993 y mae gofyn i Brifysgol Bangor, fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, baratoi cynllun iaith. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn grym ers mis Ebrill 2012. O dan y Mesur hwn bydd Safonau yn cael eu cyflwyno mewn perthynas â defnydd y Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus a fydd maes o law yn disodli cynlluniau iaith. Lluniwyd y Cynllun Iaith hwn felly gyda golwg ar y cyd-destun deddfwriaethol newydd hwn a'r ffaith y bydd Prifysgol Bangor yn ddarostyngedig i Safonau mewn pedwar maes penodol: safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau llunio polisi, safonau gweithredu a safonau cadw cofnodion. Yn unol â'r egwyddorion sydd yn sail i waith Comisiynydd y Gymraeg, mae Prifysgol Bangor yn datgan mai'r hyn a fydd yn llywio ei hymwneud â'r iaith Gymraeg, yn y cynllun iaith hwn ac unwaith y bydd safonau wedi'u cyflwyno, yw'r ddwy egwyddor isod:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

(Comisiynydd y Gymraeg, 2012)

Mae Prifysgol Bangor wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Prifysgol Bangor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru."

1.2 Cyd-destun strategol Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â'r cyd-destun deddfwriaethol a nodir uchod, mae egwyddorion y strategaethau isod hefyd yn dylanwadu ar y Cynllun Iaith hwn.

Iaith Fyw: Iaith Byw

Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Iaith Fyw: Iaith Byw, Strategaeth y Gymraeg 2012-17*. Mae'r strategaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd annog defnydd o'r Gymraeg a datblygu mentrau sydd yn ennyn diddordeb pobl yn yr iaith. Mae pwyslais hefyd ar ddangos fod y Gymraeg yn gyfrwng 'modern, creadigol, grymus, sy'n gallu addasu' (Llywodraeth Cymru, 2012).

¹ Gweler <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/enacted/welsh>

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Yn Ebrill 2010 cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae pwyslais y strategaeth hon ar gynllunio twf parhaus mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob sector.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Un newid amlwg i strwythur addysg uwch yng Nghymru er pan gafodd Cynllun Iaith 2008 Prifysgol Bangor ei gymeradwyo fu dyfodiad Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Iaith diwygiedig hwn yn ymateb i'r newid yma ac yn tanlinellu ymrwymiad Prifysgol Bangor i gynnig addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf ac i chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Y Bil Datblygu Cynaliadwy

Mae 'Cymru deg, gyfiawn a dwyieithog' yn ganolog i'r cynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a gyflwynir yn ystod Hydref 2013.

1.3 Prifysgol Bangor

Mae Siarter y Brifysgol yn ystyried y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol.

Prifysgol Bangor: Cynllun Strategol 2010-2015

Mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o gynllun strategol Prifysgol Bangor. Ceir yn y strategaeth honno chwe blaenoriaeth allweddol ac un o'r rheini yw: **Chwarae rhan flaenllaw yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, yn lleol a chenedlaethol.** Fel rhan o'r strategaeth hon, mae Prifysgol Bangor yn ymrwymedig i ddatblygu gweinyddiaeth ddwyieithog gref, datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg arloesol a pharhau i gyfrannu'n helaeth at ddatblygiad diwylliannol ac ieithyddol yr ardal. Mewn perthynas â blaenoriaethau'r Brifysgol o ran y Gymraeg, nodir yr amcanion strategol isod:

Gweinyddiaeth:

- Parhau i ddatblygu Cynllun Iaith y Brifysgol, gyda'r nod o sefydlu a chryfhau gweithgareddau rheoli a gweinyddu dwyieithog a chefnogi dysgu ac ymchwil drwy'r Gymraeg.
- Parhau i osod y meincnod i sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru o ran cyflwyno gwasanaethau dwyieithog a pharhau i anelu at ragoriaeth mewn datblygu amgylchedd gweithio dwyieithog deinamig a deniadol.

Darpariaeth Academaidd:

- Datblygu Strategaeth Cyfrwng Cymraeg newydd, yn cynnwys project gwella'r cwricwlwm, er mwyn moderneiddio ac ymestyn y portffolio cyfrwng Cymraeg a anelir yn neilltuol at ddarparu gweithlu medrus iawn ar gyfer yr economi iaith Gymraeg.
- Chwarae rhan flaenllaw yn natblygiadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac anelu at rannu ein harbenigedd disgyblaethol, pedagogaidd a gweinyddol mewn dysgu, ymchwil a chefnogaeth cyfrwng Cymraeg gyda sefydliadau eraill yng Nghymru.
- Cynyddu nifer y staff a'r myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a ddenir i astudio yn amgylchedd dwyieithog Prifysgol Bangor.

Ymwneud â'r Gymuned Ehangach:

- Cymryd rhan ddylanwadol yn y materion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n effeithio ar ddinas Bangor, y rhanbarth a'r genedl Gymreig.
- Cryfhau'r cyfraniad y mae'r Brifysgol yn ei wneud i ddatblygiad diwylliannol y rhanbarth, yn cynnwys trwy broject Pontio a rhaglenni eraill.

Mae'r Cynllun Iaith hwn yn sail i weithgareddau'r Brifysgol o ran y Gymraeg. Nod y safonau a ddaw i rym o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw cynnig cysondeb ac eglurder i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau o'r hyn y gallant ei ddisgwyl o safbwynt y Gymraeg. Yn unol â'r amcan hwn, mae'r ddogfen hon yn anelu at gynnig eglurder i'r cyhoedd - boed staff, myfyrwyr, neu unigolion o'r tu allan i'r Brifysgol - am y gwasanaethau Cymraeg y gallant ddisgwyl eu derbyn gan Brifysgol Bangor. Mae hefyd yn amcanu at gynnig arweiniad clir i staff y Brifysgol ar sut i weithredu'r Cynllun a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt wneud hynny.

1.4 Natur Ieithyddol y Brifysgol

Yn 2010/2011, roedd gan y Brifysgol 9,200 o fyfyrwyr llawn-amser a 1,980 o fyfyrwyr rhan-amser ar ben hynny. O blith y rheiny, roedd 1,795 ohonynt yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl a 743 ychwanegol yn nodi eu bod yn siarad rhyw gymaint o Gymraeg neu'n dysgu'r iaith.

Mae'r Brifysgol yn cyflogi oddeutu 2,300 o staff (llawn-amser a rhan-amser). O'r cyfanswm hwn, mae 45% yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 22% ychwanegol yn siarad ychydig o Gymraeg neu'n dysgu'r iaith.

Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n rheolaidd mewn cyd-destunau cymdeithasol a phroffesiynol. Yn ôl cyfrifiad 2001, roedd 69% o boblogaeth Gwynedd yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl.

1.5 Canolfan Bedwyr a'r trefniadau sydd mewn lle i hyrwyddo, gweinyddu ac arolygu'r Cynllun

Mae *Canolfan Bedwyr*, un o adrannau gwasanaeth canolog y Brifysgol, yn greiddiol i'r gwaith o weithredu strategaeth y Brifysgol mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae cylch gorchwyl y ganolfan yn cynnwys hybu a chefnogi darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn ei gweinyddiad. Yn ehangach, mae'r ganolfan yn gweithredu fel catalydd i ddatblygu Prifysgol Bangor yn ganolfan ragoriaeth o ran addysg cyfrwng Cymraeg a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu strategaeth y Brifysgol mewn perthynas â'r Gymraeg, a'r Cynllun Iaith yn benodol, mae Canolfan Bedwyr yn darparu gwasanaeth cyfieithu cyflawn (ysgrifenedig ac ar y pryd) yn ogystal ag adnoddau a chyrsgiau ar gyfer staff a myfyrwyr. Mae'r cyrsiau a gynigir yn cynnwys cyrsiau iaith a chyrsgiau ymwybyddiaeth iaith. Mae gwefan y ganolfan² yn cynnig mynediad i adnoddau polisi a gwybodaeth ynghylch polisi, ac yn

² www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr

gyfochrog â hynny mae gwefan 'Cymorth Cymraeg'³ yn cynnig adnoddau ymarferol i gynorthwyo staff a myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mae'r ganolfan yn darparu llawlyfrau a thafleuni cyfarwyddyd amrywiol (e.e. 'Llawlyfr Modiwlau Cymraeg a Dwyieithog', 'Llawlyfr Cefnogi Myfyrwyr sy'n Siarad Cymraeg a myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg').

O ran integreiddio'r Cynllun Iaith a'i weithrediad i weinyddiaeth y Brifysgol, **Y Cyngor** trwy'r Pwyllgor Dwyieithrwydd sydd â'r cyfrifoldeb am weinyddu a hyrwyddo agweddau gweinyddol y Cynllun, a'r **Pwyllgor Gweithredu**, trwy TASIG, sy'n gyfrifol am yr agweddau addysg a hyfforddiant. Mae'r atebolrwydd hwn yn sicrhau bod awdurdod llawn y Brifysgol ynghlwm wrth weithrediad y Cynllun.⁴

Bydd Cyfarwyddwr y Cynllun Iaith, Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr a'r Dirprwy Is-ganghellor dros y Gymraeg yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod y Cynllun Iaith yn cael ei weithredu drwy'r sefydliad ac yn codi ymwybyddiaeth o'i ofynion ymhlith staff. Fel yn achos polisïau eraill y Brifysgol, bydd gan Benaethiaid Coleg, Penaethiaid Ysgol, Penaethiaid Gwasanaethau Canolog a phenaethiaid canolfannau eraill y Brifysgol gyfrifoldeb am sicrhau bod y Cynllun Iaith yn cael ei weithredu'n briodol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb hwy. Cyfarwyddwr y Cynllun Iaith fydd yn bennaf gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun, gan sicrhau bod y monitro'n weithgarwch parhaus. Bydd cwestiynau am ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn cael eu prif-ffrydio yn arolygon amrywiol y Brifysgol (e.e. Arolwg Boddhad Myfyrwyr, Arolwg Gwasanaethau Technoleg, Arolwg Staff, a.y.y.b).

Bydd Cyfarwyddwr y Cynllun Iaith yn trefnu ymarferion 'Siopwr Dirgel' ddwywaith y flwyddyn ac yn adrodd ar ganlyniadau'r ymarferion hynny i'r pwyllgorau perthnasol fel bod modd gweithredu ar unrhyw ddiffygion a ddaw i'r amlwg. Bydd hefyd yn sicrhau bod trefn ar gael i ymgorffori unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella gweithrediad y Cynllun a bydd sylwadau o'r fath yn cael eu hannog a'u cofnodi. Bydd Canolfan Bedwyr yn gyfrifol am ddarparu Adroddiad Blynyddol i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a fydd yn adrodd ar y dangosyddion perfformiad a gytunwyd gan y sector Addysg Uwch. Bydd y Pwyllgor Dwyieithrwydd a TASIG yn cyd-gyfarfod yn flynyddol i ystyried yr adroddiad ac i ymdrin ag unrhyw faterion pellach sy'n deillio ohono.

1.6 Egwyddorion Sylfaenol y Cynllun Iaith

Mae'r Cynllun Iaith hwn yn rhoi hawl i'r cyhoedd - yn unigolion, grwpiau neu sefydliadau - ymwneud â'r Brifysgol yn eu dewis iaith, boed Gymraeg neu Saesneg, ac i dderbyn gwasanaeth yn yr iaith honno oddi wrth y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei chyfrifoldeb i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Fel y nodwyd eisoes, mae'n cydnabod yr egwyddorion sylfaenol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr egwyddorion hyn mewn perthynas â'i hymwneud ag unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sy'n dod i gysylltiad â'r Brifysgol, yn cynnwys darpar fyfyrwyr a myfyrwyr sy'n gofrestrdig yn y Brifysgol a staff.

³ www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg

⁴ Mae'r strwythurau hyn wedi'u darlunio'n llawn ar dudalen 43 o'r Cynllun hwn.

Mae'r Cynllun hwn yn disgrifio sut y mae'r Brifysgol am fynd ati i weithredu'r egwyddorion hyn dros y blynyddoedd nesaf mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithgareddau mewnol y sefydliad a chadw cofnodion. Mae adrannau eraill o'r Cynllun yn edrych ar gyd-destunau penodol ac ymrwymadau'r Brifysgol i'r perwyl hwn, sef y cyd-destun academaidd a chyd-destun Pontio yn ogystal â'r gefnogaeth sydd ar gael i staff i weithredu'r Cynllun Iaith.

1.7 I bwy mae'r Cynllun Iaith yn berthnasol?

Mae'r Cynllun Iaith hwn yn berthnasol i'r holl rannau isod o'r Brifysgol yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru (h.y. myfyrwyr, staff, a phobl o'r tu allan i'r Brifysgol):

- Adrannau Gwasanaeth Canolog
- Ysgolion Academaidd
- Colegau
- Unedau Ymchwil a Sefydliadau Ymchwil
- Gwasanaethau Busnes y Brifysgol
- Pontio
- Unrhyw is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r Brifysgol
- Unrhyw gwmni trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Brifysgol i'r cyhoedd yng Nghymru yng nghyd-destun y gwasanaeth a gynigir

1.8 Cymorth

Yn y tablau sy'n dilyn, ceir cyfeiriadau at y ffynonellau cymorth sydd ar gael ar gyfer agweddau penodol o waith y Brifysgol.

1.9 Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y Cynllun yn derbyn cyhoeddusrwydd pan fydd yn cael ei gymeradwyo (e.e. drwy ddatganiad i'r wasg) ac yna yn gyson drwy ei gweithgareddau a'i ffynonellau cyfathrebu arferol.

Bydd y Cynllun ei hun a gwybodaeth amdano yn ymddangos ar wefan y Brifysgol mewn amrywiol fannau, yn cynnwys Cofrestr Polisi'r Brifysgol (o dan ofal Y Gofrestrfa), gwefan Canolfan Bedwyr a gwefan Adnoddau Dynol. Bydd cyflwyniad ar y Cynllun Iaith yn rhan anhepgor o'r sesiwn gynefino i staff newydd a bydd cyfeiriadau at y Cynllun Iaith mewn llawlyfrau ar gyfer myfyrwyr a staff. Bydd copïau caled o'r Cynllun Iaith yn cael eu dosbarthu yn eang yn y Brifysgol a bydd modd gofyn am gopi gan Ganolfan Bedwyr.

A: Cyflenwi Gwasanaethau

2.1 Gweledigaeth Prifysgol Bangor o safbwynt cyflenwi gwasanaethau

- Wrth gyflenwi gwasanaethau ni fydd y Brifysgol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Bydd y gwasanaeth a gyflenwir gan y Brifysgol yn newis iaith person (h.y. yn Gymraeg neu yn Saesneg), neu yn ddwyieithog os nad yw'r Brifysgol yn ymwybodol pa un yw'r dewis iaith.⁵
- Bydd Prifysgol Bangor yn cofnodi dewis iaith unigolion lle bo'n ymarferol a rhesymol gwneud hynny.
- Bydd Prifysgol Bangor yn rhagweithiol wrth hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog ac yn ei gwneud yn amlwg bod modd i unigolion, grwpiau neu sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg.
- Bydd Prifysgol Bangor yn codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg a ddarperir.
- Os nad oes aelod o staff ar gael i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, bydd y brifysgol yn gwneud trefniadau i sicrhau bod modd cynnig gwasanaeth drwy'r Gymraeg os yw defnyddiwr y gwasanaeth yn dymuno hynny.
- Bydd Prifysgol Bangor bob amser yn parhau dewis iaith y sawl sy'n dewis cyfathrebu yn y Gymraeg ac yn ymdrin â hwy yn effeithiol a chwrtais.

2.2 Egwyddorion sylfaenol

- Bydd pob deunydd a gyhoeddir (ar bapur neu ar ddeunyddiau eraill neu yn electronig) sy'n cyflenwi gwasanaethau, yn ymwneud â gwasanaethau neu sy'n cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd y testun neu'r cyfathrebiad yr un fath yn y Gymraeg a'r Saesneg o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- Bydd testunau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi a'u hanfon ar yr un pryd.
- Bydd pris testunau neu ddeunyddiau Cymraeg a Saesneg yr un fath ac ni fydd pris fersiwn dwyieithog yn uwch na phris fersiwn uniaith.
- Os ydy'r Brifysgol yn codi tâl am ddefnyddio gwasanaeth, bydd pris y gwasanaeth Cymraeg yr un fath â phris y gwasanaeth Saesneg.

2.3 Gwasanaethau gan 3ydd parti

- Os yw 3ydd parti yn darparu gwasanaethau ar ran Prifysgol Bangor, bydd y gwasanaeth a gyflwynir i'r defnyddiwr o'r un safon o safbwynt y Gymraeg â phe byddai'r gwasanaeth wedi'i gyflenwi'n uniongyrchol gan y Brifysgol. Bydd gallu'r 3ydd parti i gadw at yr egwyddor hon yn cael ei sicrhau cyn dyfarnu contract, wrth osod y contract ac wrth fonitro'r contract.
- Bydd dogfennau tendr, contractau a chytundebau yn nodi wrth y trydydd parti nad yw'r Gymraeg i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd Prifysgol Bangor yn monitro a yw'r gwasanaethau y mae'r brifysgol yn eu darparu a'r gwasanaethau y mae 3ydd parti yn eu darparu yn cadw at yr hyn a nodir uchod.

⁵ Nid yw 'gwasanaeth' yma yn cyfeirio at ddarpariaeth academiaidd. Ymdrinir â hyn yn y Cynllun Academiaidd.

Cyflenwi Gwasanaethau: ymrwymadau'r Brifysgol o safbwynt defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r drefn i'w dilyn wrth gynnig gwasanaethau ar gyfer myfyrwyr a staff Y Brifysgol ynghyd ag unigolion, grwpiau a sefydliadau o'r tu allan i'r Brifysgol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Gohebiaeth	<i>Mae'r datganiadau isod yn berthnasol i ohebiaeth bapur ac electronig.</i>				
1.1	Pan fydd gohebiaeth yn ddwyieithog, bydd y Gymraeg yn ymddangos uwch ben y Saesneg ym mhob cyfrwng.		Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Canllaw Gohebiaeth	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
1.2	Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.		Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
1.3	Bydd yr amseroedd cydnabod ac ateb gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg yr un fath.		Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Canllaw Gohebiaeth	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
1.4	Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb a'i llofnodi'n Gymraeg.		Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Canllaw Gohebiaeth	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
1.5	Cychwynnir gohebu yn Gymraeg gyda'r rhai sydd wedi nodi ei bod yn well ganddynt ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg, y rhai y siaradwyd wyneb yn wyneb â hwy, neu dros y ffôn, yn Gymraeg yn y gorffennol, y rhai lle y mae'n wybyddus mai Cymraeg yw eu dewis iaith.		Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Canllaw Gohebiaeth	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
1.6	Bydd gohebiaeth swyddogol ysgrifenedig a anfonir gan weinyddiaeth y Brifysgol at unigolion yng Nghymru yn yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr ohebiaeth wreiddiol (lle mae hynny'n wybyddus); fel arall bydd yn ddwyieithog.		Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cofrestrydd Academaidd	Gweithredol
1.7	Bydd gohebiaeth swyddogol gychwynnol gan y Brifysgol yn ganolog neu gan unrhyw ran ohoni at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.		Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Canllaw Gohebiaeth	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

	1.8	Bydd pob gohebiaeth gorfforaethol swyddogol (e.e. datganiadau) a gychwynnir gan weinyddiaeth y Brifysgol at awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol
	1.9	Nodir dewis iaith myfyrwyr ar gyfer derbyn gohebiaeth swyddogol yn BANNER (system gofnodi). Mae myfyrwyr yn rhoi gwybod i'r Brifysgol am eu dewis iaith wrth gofrestru. Bydd y Brifysgol yn parchu'r dewis iaith hwnnw ar gyfer pob gohebiaeth swyddogol.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Canllaw Gohebiaeth	Cofrestrydd Academaidd	Gweithredol
	1.10	Bydd iaith gohebiaeth answyddogol gan aelod o Ganolfan Adnoddau at fyfyrwr neu grŵp o fyfyrwyr yn ôl dymuniad pob myfyrwr fel y cafodd ei nodi yn BANNER neu ar sail y ddealltwriaeth sydd rhyngddynt.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Canllaw Gohebiaeth	Cofrestrydd Academaidd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	1.11	Bydd gohebiaeth rhwng y weinyddiaeth ganolog ac aelodau unigol staff y Brifysgol yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dymuniad pob aelod unigol o staff fel y nodwyd ef yn AGRESSO.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol
	1.12	Bydd ffeiliau llofnod ar ohebiaeth electronig yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr Cymorth Cymraeg	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	1.13	Bydd yr ymwadiad a atodir gan y sefydliad i bob gohebiaeth electronig yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Cymorth Cymraeg	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Galwadau ffôn	2.1	Croesewir galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	2.2	Bydd staff y switsfwrdd ganolog ac adrannol yn ateb pob galwad ffôn yn ddwyieithog (e.e. "bore da, good morning").	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

2.3	Os yw'r ffôn yn cael ei ateb gan unigolyn dwyieithog, neu os yw'r alwad yn cael ei throsglwyddo iddo/iddi, bydd pob unigolyn dwyieithog yn ei gwneud yn amlwg wrth ateb ei fod yn ddwyieithog (e.e. drwy ddweud "bore da, good morning"). Gellir sgwrsio wedyn yn yr iaith y mae'r un sydd wedi ffonio yn dymuno ei defnyddio.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
2.4	Os yw'r alwad yn cael ei chyfeirio at aelod o staff ysgrifenyddol Canolfan Adnoddau benodol, neu'n cael ei throsglwyddo iddo/iddi, yna bydd yr alwad yn cael ei hateb â chyfarchiad dwyieithog. Os bydd yr un sy'n galw yn dymuno siarad yn Gymraeg, trosglwyddir yr alwad i unigolyn dwyieithog o fewn y Ganolfan Adnoddau.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
2.5	Mewn Canolfan Adnoddau lle nad yw'r aelodau o staff dwyieithog ar gael ar y pryd, trefnir i rywun sy'n gallu siarad Cymraeg ffonio'n ôl, oni bai fod y sawl sy'n ffonio yn dymuno trafod yn Saesneg.	Canolfan Bedwyr	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
2.6	Mewn Canolfan Adnoddau lle nad oes aelodau staff dwyieithog yn gweithio ar y pryd, esbonnir y sefyllfa'n gwrtais a gofyn a yw'r unigolyn sy'n ffonio yn fodlon siarad â rhywun di-gymraeg.	Canolfan Bedwyr	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
2.7	Mewn Canolfannau Adnoddau gweinyddol lle nad oes aelodau staff dwyieithog yn gweithio ar y pryd, esbonnir yn gwrtais i'r sawl sy'n galw nad oes neb ar gael i ddelio â'u galwad yn y Gymraeg a chynnig iddynt: (1) gael siarad â swyddog dwyieithog o Ganolfan Adnoddau arall, neu (2) ofyn iddo/iddi a yw'n fodlon siarad â rhywun di-gymraeg neu (3) drosglwyddo'r alwad i Ganolfan Bedwyr. Gellir hefyd gynnig y dewis	Canolfan Bedwyr	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

		i'r unigolyn ysgrifennu'n Gymraeg at y Brifysgol a derbyn ymateb ysgrifenedig yn yr un iaith.			
	2.8	Anogir dysgwyr i ymarfer siarad yn Gymraeg wrth gyfarch ac ateb yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	2.9	Bydd y cyfarchion a'r cyfarwyddiadau sydd ar bob peiriant ateb swyddogol yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Cyfarfodydd Cyhoeddus yng Nghymru	3.1	Bydd croeso i staff y Brifysgol a'r cyhoedd siarad Cymraeg neu Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Brifysgol i ymgynghori neu rannu gwybodaeth â'r cyhoedd.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	3.2	Bydd gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd ar gael yn y cyfarfodydd hyn.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	3.3	Hysbysir y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r fath (ar bosteri neu wahoddiadau) y bydd offer cyfieithu ar-y-pryd ar gael a bod rhyddid iddynt siarad yn y cyfarfod yn eu dewis iaith.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	3.4	Ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Brifysgol bydd deunyddiau'r cyfarfod yn cael eu paratoi'n ddwyieithog (e.e. agenda, cofnodion, papurau, cyflwyniadau <i>PowerPoint</i>).	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	3.5	Bydd staff sy'n cynrychioli'r Brifysgol yn y cyfarfod yn rhoi ystyriaeth ofalus i iaith unrhyw gyflwyniadau llafar a roddir ganddynt.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	3.6	Os yw aelod o staff y Brifysgol yn mynychu cyfarfod yng Nghymru a drefnir gan 3ydd parti, bydd staff yn ystyried yn ofalus iaith y cyflwyniad, er enghraifft yng nghyd-destun iaith weithredol arferol y 3ydd parti.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Darlithoedd a chynadleddau sy'n agored i'r cyhoedd	4.1	Bydd yr hysbysrwydd yn Gymraeg a Saesneg (e.e. manylion lleoliad, amser a dyddiad).	Canolfan Bedwyr Cymorth Cymraeg	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	4.2	Bydd teitl unrhyw ddarlith unigol yn yr iaith y cyflwynir y ddarlith ynddi. Os oes gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd yn mynd i fod ar gael, bydd teitl y ddarlith yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	4.3	Bydd yr hysbysebion ar gyfer y ddarlith neu'r gynhadledd yn nodi'n glir a fydd gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd ar gael ai peidio.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	4.4	Wrth drefnu darlith neu gynhadledd ystyrir amcan a nod yr achlysur yn ofalus yn y cyd-destun ieithyddol. Er mwyn gallu ymateb i ymholiadau penodol, argymhellir, fel enghraifft o arfer dda, y gellir cadw cofnod o'r amcanion a'r nodau hyn. Wrth gynnal asesiad o'r anghenion ystyrir hefyd, a) naws y sesiynau ffurfiol, b) naws y grwpiau trafod, c) naws y toriadau anffurfiol, ch) y gofynion ieithyddol o ran cadeirio sesiynau. Gall modelau ieithyddol gwahanol ateb gofynion amrywiol a bydd rhaid dewis y model sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r nod dan sylw. Mae'r modelau a ganlyn yn bosibl ac fe'u cyflwynir fel canllawiau.	Canolfan Bedwyr Y canllawiau isod	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
		Darlith Gyhoeddus Model D1: Traddodir y ddarlith yn y Gymraeg neu'r Saesneg gyda chyflwyniad Cadeirydd y cyfarfod yn iaith y ddarlith neu yn ddwyieithog. Ni ddarperir gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd. Model D2: Traddodir y ddarlith yn y Gymraeg			

		neu'r Saesneg gyda chyflwyniad Cadeirydd y cyfarfod yn iaith y ddarlith neu yn ddwyieithog. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd pan fo'r ddarlith yn Gymraeg.			
		<p>Darlithoedd cyhoeddus ffurfiol</p> <p>i. Darlithoedd adrannol Cynhelir darlithoedd cyhoeddus gan siaradwyr gwadd dan nawdd adrannau academiaidd unigol. Ar gyfer y darlithoedd hyn dilynir Model D1 yn arferol oni bai fod trefnwyr y ddarlith yn dewis D2 ar sail asesiad o'r anghenion.</p> <p>ii. Darlithoedd y Brifysgol Cynhelir cyfres flynyddol o ddarlithoedd cyhoeddus gan siaradwyr gwadd amlwg ac a drefnir gan Swyddfa'r Cofrestrydd. Ar gyfer y cyfryw ddarlithoedd dilynir Model D1.</p>			
		<p>Cynhadledd gyhoeddus</p> <p>Model C1: Darlithoedd yn gyfan gwbl yn y Gymraeg yn unig neu yn y Saesneg yn unig. Grwpiau trafod Saesneg yn unig neu Gymraeg yn unig yn ôl iaith y darlithoedd.</p> <p>Model C2: Darlithoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg gyda gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd ar gyfer y darlithoedd Cymraeg a/neu sesiynau torfol eraill. Rhai grwpiau trafod Saesneg a rhai grwpiau trafod Cymraeg.</p> <p>Model C3: Darlithoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg gyda gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd ar</p>			

		<p>gyfer y darlithoedd Cymraeg a/neu sesiynau torfol eraill. Grwpiau trafod Saesneg yn unig.</p> <p>Model C4: Darlithoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg gyda gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd ar gyfer y darlithoedd Cymraeg a/neu sesiynau torfol eraill. Rhai grwpiau trafod Saesneg a rhai grwpiau trafod Cymraeg gyda chyfieithu ar-y-pryd yn un neu ragor o'r grwpiau Cymraeg. (Dylid nodi'r anawsterau technegol all godi wrth geisio cyfieithu ar-y-pryd mewn mwy nag un lle, o ran yr angen i ddyblygu offer cyfieithu a chyfieithwyr, a phroblemau ymyrraeth electronig posibl.)</p>			
--	--	--	--	--	--

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Gwrandawiaidau a chyfarfodydd cyfreithiol	5.1	Y mae gan unrhyw aelod o'r cyhoedd, staff neu fyfyrwr sy'n rhan o wrandawriad disgyblu, boed hynny fel y sawl a gyhuddir, neu fel tyst, yr hawl i ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl ei ddewis yn ystod pob cam o'r gwrandawriad. Bydd y Cadeirydd/Cynullydd yn gofyn ymlaen llaw ym mha iaith y dymuna pob un sy'n cymryd rhan gyfrannu a phenderfynu a oes angen cyfieithydd ai peidio.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Derbyn ymwelwyr	6.1	Bydd staff sydd yn derbyn y cyhoedd i'r Brifysgol yn gwneud hynny'n fyr ac yn ddwyieithog.	Cynllun Iaith Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb	7.1	Yn y Brif Dderbynfa a'r Canolfannau Adnoddau canolog (e.e. Y Gofrestrfa, Adran Adnoddau Dynol, y canolfannau adnoddau academiaidd, y Llyfrgell a'r Gwasanaethau TG), sicrheir bod aelod o staff dwyieithog ar gael (neu y gellir galw arno/arni) i alluogi pobl i ddelio â'r sefydliad yn Gymraeg neu yn Saesneg.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	7.2	Mewn Canolfannau Adnoddau lle nad yw'n bosib ar hyn o bryd i gynnig gwasanaeth dwyieithog, gan nad oes staff dwyieithog yno, rhoddir hyfforddiant i dderbynyddion i gyfarch yn ddwyieithog ac i esbonio nad oes neb dwyieithog yn y Ganolfan Adnoddau i ddelio â'r mater. Gellir cynnig rhywun o ganolfan adnoddau arall os yw hynny'n dderbyniol i'r unigolyn, neu gyfathrebu trwy'r Saesneg. Yn ystod tymor y cynllun hwn, trwy ddsbarthiadau Cymraeg a/neu bolisi penodi, y nod yw sicrhau bod rhywrai dwyieithog ar gael ym mhob Canolfan Adnoddau.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff Cymorth Cymraeg	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Erbyn Haf 2014

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Cyfarfodydd at bwrpas addysgol	8.1	Mae polisiau penodol o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (e.e. gallu myfyrwyr i gyflwyno aseiniadau drwy gyfrwng y Gymraeg) yn cael eu nodi yn y Cynllun Academiaidd.	Cynllun Academiaidd Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Academiaidd	Gweithredol
	8.2	Bydd y Brifysgol yn cynnig yr un safon o wasanaeth i'w myfyrwyr ar gyfer cyfarfodydd addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg ag sydd yn cael ei gynnig drwy'r Saesneg o ran sicrhau'r safonau uchaf posibl o ddysgu ac addysgu a sicrhau bod y cwricwlwm yn hyblyg, perthnasol	Cynllun Academiaidd Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Academiaidd	Gweithredol

		ac wedi'i seilio ar ymchwil.			
	8.3	Yn unol â'i Siarter Myfyrwyr, bydd y Brifysgol yn ei holl ymwneud â myfyrwyr yn sicrhau'r un safon o brofiadau a gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ag sydd ar gael drwy gyfrwng y Saesneg (e.e. ymwneud yn brydlon a blaengar â myfyrwyr, sicrhau amgylchedd cynhwysol, croesawus a chefnogol a pharatoi myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth a dysgu gydol oes).	Cynllun Academaidd Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Academaidd Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Gofalu am unigolion	9.1	Bydd pob ysgol academaidd lle mae aelodau o staff darlithio craidd yn siarad Cymraeg yn sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Academaidd Penaethiaid Ysgolion Academaidd	Gweithredol
	9.2	Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gwasanaethau gofal (e.e. cwnsela, cefnogaeth anabledd, cefnogaeth ariannol) ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr.	Canolfan Bedwyr Gwasanaethau Myfyrwyr	Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr	Gweithredol
	9.3	Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i staff drwy ei gwasanaethau gofal (e.e. iechyd a diogelwch, cwnsela).	Canolfan Bedwyr Adnoddau Dynol Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Gwefan y Brifysgol	10.1	Bydd holl dudalennau corfforaethol y sefydliad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Canolfan Bedwyr Tîm y We	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	10.2	Bydd holl dudalennau'r adrannau gwasanaeth canolog ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	Canolfan Bedwyr Tîm y We	Penaethiaid Adrannau Gwasanaeth Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol

10.3	Bydd holl dudalennau'r colegau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	Canolfan Bedwyr Tîm y We	Penaethiaid Colegau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
10.4	Bydd tudalennau cartref a thudalennau newyddion yr holl ysgolion academaidd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Yn achos yr ysgolion hynny sy'n dysgu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, neu yn achos ysgolion lle mae nifer sylweddol o'r staff a'r myfyrwyr yn medru'r Gymraeg, bydd y tudalennau eraill hefyd ar gael yn y ddwy iaith.	Canolfan Bedwyr Tîm y We	Penaethiaid Colegau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
10.5	Bydd tudalennau cartref unedau ymchwil ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Yn achos yr unedau ymchwil hynny sy'n ymdrin â Chymru a'r Gymraeg yn benodol, bydd y tudalennau eraill hefyd ar gael yn y ddwy iaith.	Canolfan Bedwyr Tîm y We	Penaethiaid Canolfannau Ymchwil Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
10.6	Bydd y tudalennau Cymraeg a'r Saesneg yn gydradd o ran eu diwyg, eu hansawdd a'u cywirdeb.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Tîm y We	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
10.7	Bydd cynnwys y tudalennau Cymraeg yn cael eu diweddarau ar yr un pryd â'r tudalennau Saesneg.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Tîm y We	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
10.8	Bydd Tîm y We mewn ymgynghoriad â Chanolfan Bedwyr yn darparu cyngor a chanllawiau ar gyfer creu a chynnal gwefannau dwyieithog.	Canolfan Bedwyr Tîm y We	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
10.9	Wrth ddatblygu a chynnal ei bresenoldeb ar-lein, y mae'r sefydliad wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r safonau a amlinellir yn nogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg 'Egwyddorion Meddalwedd Dwyieithog'.	Canolfan Bedwyr Tîm y We	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Gwasanaethau ar-lein	11.1	Bydd mewnrwyd y Brifysgol a'r gwasanaethau a gynigir drwyddi ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	Canolfan Bedwyr Tîm y We	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	11.2	Bydd rhyngwyneb llwyfan e-ddysgu'r Brifysgol ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	Canolfan Bedwyr Tîm Technoleg Dysgu	Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	11.3	Bydd deunydd modiwlau a chysiau a osodir ar y llwyfan e-ddysgu ar gael yn Gymraeg neu yn ddwyieithog os yw'r modiwlau neu'r cysiau yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg.	Canolfan Bedwyr Tîm Technoleg Dysgu	Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	11.4	Wrth i wasanaethau ar-lein gael eu datblygu o'r newydd, bydd y Brifysgol yn sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	Canolfan Bedwyr Gwasanaethau TG	Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Cyfryngau Cymdeithasol	12.1	Bydd defnydd y Brifysgol o gyfryngau cymdeithasol yn ddarostyngedig i brif egwyddorion y cynllun hwn.	Canolfan Bedwyr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	12.2	Bydd presenoldeb y Brifysgol yn ganolog ar y rhwydweithiau cymdeithasol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog mewn dwy ffrwd ar wahân neu mewn un ffrwd ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	12.3	Disgwylir i adrannau'r Brifysgol gynnal unrhyw bresenoldeb sydd ganddynt ar rwydweithiau cymdeithasol mewn ffrwd ddwyieithog neu mewn ffrydiau Cymraeg a Saesneg ar wahân.	Canolfan Bedwyr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Erbyn Hydref 2013
	12.4	Bydd yr adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata mewn ymgynghoriad â Chanolfan Bedwyr yn darparu cyngor a chanllawiau i adrannau ar gyfer cynnal presenoldeb dwyieithog ar rwydweithiau cymdeithasol.	Canolfan Bedwyr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad	13.1	Bydd hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yn ddwyieithog pa le bynnag y bydd yn cael ei ddangos.	Canolfan Bedwyr Canllawiau Brand Prifysgol Bangor	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
	13.2	Bydd hyn yn cynnwys enw'r Brifysgol a'i Chanolfannau Adnoddau mewn logo, penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, cardiau busnes, gwahoddiadau ac eitemau tebyg.	Canolfan Bedwyr Canllawiau Brand Prifysgol Bangor	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	13.3	Bydd gwybodaeth ac enw'r Brifysgol yn dilyn yr un patrwm lle bynnag y caiff ei arddangos yn barhaol, boed hynny ar arwyddion, cerbydau, ysgrifen ar adeilad, mewn arddangosfa neu ar gyhoeddiadau. Ym mhob achos bydd y Gymraeg yn dod yn uchaf neu'n gyntaf.	Canolfan Bedwyr Canllawiau Brand Prifysgol Bangor	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Arwyddion o fewn ffiniau Prifysgol Bangor	14.1	Bydd teitlau ar adeiladau ac eiddo'r Brifysgol sydd ag enwau swyddogaethol, yn Gymraeg a Saesneg; bydd adeiladau sy'n coffáu unigolion ar y ffurf 'Adeilad....' neu 'Neuadd....' yn unig.	Canolfan Bedwyr Swyddfa'r Cofrestrydd	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
	14.2	Bydd y penderfyniad am enwi adeiladau neu ystafelloedd yn dilyn derbyn nawdd yn rhan o gyfrifoldeb y grŵp sy'n gyfrifol am y mater hwn ac a gadeirir gan y Cofrestrydd.	Canolfan Bedwyr Swyddfa'r Cofrestrydd	Cofrestrydd	Gweithredol
	14.3	Bydd yr arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd swyddogol yn ddwyieithog. Gellir eithrio gwybodaeth wedi'i arddangos mewn ystafelloedd lle mae digwyddiad cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal. Yn yr achos hwn gall arwyddion fod yn y Gymraeg yn unig. Mewn ystafelloedd lle mae digwyddiad ar gyfer myfyrwyr tramor yn unig yn cael ei gynnal, gellir arddangos arwyddion yn Saesneg yn unig.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol

	14.4	Bydd unrhyw arwyddion eraill e.e. arwyddion priffyrdd neu arwyddion gwybodaeth gyhoeddus, yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
	14.5	Ym mhob achos bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, safon eglurder ac amlygrwydd. Bydd pob arwydd newydd yn gwbl ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr Canllawiau Brand Prifysgol Bangor	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
Arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill a leolir yng Nghymru	14.6	Bydd unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill a leolir mewn unrhyw fan yng Nghymru ac y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdanynt, yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr Canllawiau Brand Prifysgol Bangor	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Cyhoeddi a phrintio deunyddiau sydd wedi eu cyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru	15.1	Bydd pob cyhoeddiad a deunydd Prifysgol sydd wedi'i gyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Y drefn arferol fydd cynhyrchu fersiynau dwyieithog o fewn yr un ddogfen. Mae hynny'n cynnwys amrywiaeth o ddeunydd printiedig e.e. poster, sicciau, bwydlenni, derbynebau, anfonebau, mapiau a.y.b.	Canolfan Bedwyr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
	15.2	Mewn achosion prin lle bydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd. Os codir tâl, bydd y fersiwn dwyieithog a'r fersiwn uniaith yr un pris, a'r un pris, hefyd, fydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg.	Canolfan Bedwyr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
	15.3	Cynhyrchir Prosbectws Cymraeg a Saesneg. Bydd y cyhoeddiad Cymraeg o naws a natur wahanol i'r cyhoeddiad Saesneg. Bydd y fersiwn Saesneg yn cynnwys gwybodaeth (yn Saesneg) am gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, Polisi laith y Brifysgol a lleoliad y Brifysgol mewn ardal Gymraeg ei hiaith. Bydd y fersiwn Cymraeg yn	Canolfan Bedwyr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol

		cael ei gylchredeg i holl ysgolion uwchradd Cymru bob blwyddyn.			
	15.4	Lle cynigir cwrs drwy'r Gymraeg, cynhyrchir fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o'r arholiadau, unrhyw nodiadau darlith a.y.b.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Academaidd	Gweithredol
	15.5	Bydd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol
	15.6	Bydd rhybuddion cyfarfodydd y Llys, y Cyngor a Phwyllgorau Sefydlog y Cyngor, ynghyd â phapur Agenda'r cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog. Pan fo modd, dylid gosod y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg mewn colofnau cyfochrog gyda'r Gymraeg ar yr ochr chwith i'r dudalen a'r Saesneg ar yr ochr dde.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol
	15.7	Bydd yr holl bapurau a ddosberthir ar gyfer cyfarfodydd y Llys a'r Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol
	15.8	Iaith y cylchgrawn/noddwr ymchwil fydd yn rheoli cyfrwng cyhoeddiadau academaidd, ond bydd y Brifysgol yn annog cyhoeddiadau academaidd dwyieithog, yn arbennig yn y meysydd cwricwlaidd a gynigir trwy'r Gymraeg.	Canolfan Bedwyr	Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) Penaethiaid Colegau ac Ysgolion Academaidd	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Ffurflenni a deunydd esboniadol sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru	16.1	Bydd unrhyw ffurflenni a gynhyrchir gan y Brifysgol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru a'r deunydd esboniadol fydd yn mynd gyda'r rhain yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni gwybodaeth i fyfyrwyr am ddechrau'r tymor, cofrestru, gwybodaeth am gyrsiau a.y.b.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Academaidd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	16.2	Y drefn arferol fydd cynhyrchu fersiynau dwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Academaidd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol

	16.3	Mewn achosion lle bydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd a'r un mor rhwydd i'w cael. Cânt eu dosbarthu'r un pryd a byddant yn cynnwys nodyn sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael hefyd yn yr iaith arall.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Academaidd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
--	------	--	-----------------	---	-------------

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Hysbysiadau i'r wasg sydd i'w dosbarthu yng Nghymru	17.1	Bydd unrhyw hysbysiadau, hysbysebion neu ddatganiadau a ryddheir i'r wasg neu ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru gan y Brifysgol yn ddwyieithog. (e.e. bydd hysbysebion yn y Daily Post, Western Mail, Bangor and Anglesey Mail, North Wales Chronicle a.y.b. yn ddwyieithog).	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
	17.2	Bydd unrhyw gysylltiad pellach â'r wasg neu'r cyfryngau yng Nghymru yn Gymraeg neu Saesneg yn dibynnu ar iaith y gohebydd a/neu'r papur newydd, cylchgrawn neu raglen.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Deunydd cyhoeddusrwydd, ymgyrchoedd hysbysebu, ymgyrchoedd marchnata a dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyhoeddusrwydd yng Nghymru	18.1	Bydd deunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir gan y Brifysgol ar gyfer ymgyrchoedd hysbysebu ac ymgyrchoedd marchnata yng Nghymru yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, waeth beth fo'i ffurf e.e. pamffledi, llyfrynau, taflenni, deunyddiau arddangos mewn arddangosfeydd, negeseuon electronig, tapiau fideo.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
	18.2	Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddeunyddiau fideo'r Brifysgol ac ni fydd y ddau fersiwn o angenrheidrwydd yn union yr un fath.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol
	18.3	Mewn achosion lle bydd y Brifysgol yn	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau	Gweithredol

		hysbysebu ar radio neu deledu, bydd iaith yr hysbyseb yn dibynnu ar iaith y sianel. Defnyddir cyfryngau Cymraeg a Saesneg.		Corfforaethol a Marchnata	
18.4		Bydd y dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn digwydd yn Gymraeg neu'n Saesneg yn ôl yr iaith a ddefnyddir gan y sawl a fydd yn cysylltu â'r Brifysgol am wybodaeth bellach.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
18.5		Yn achos deunydd dwyieithog, bydd y Gymraeg yn ymddangos uwch ben y Saesneg, neu, lle bo'r testun yn gyfochrog ar yr un dudalen, bydd y fersiwn Cymraeg ar y chwith. Lle bo'r Gymraeg a'r Saesneg bob yn ail dudalen, y Gymraeg fydd ar y dde. Byddant yn cael yr un amlygrwydd o ran arddull a chyflwyniad. Gallai'r lliwiau a ddefnyddir ar gyfer y ddwy iaith fod yn wahanol, ond defnyddir lliwiau cysefin cyfartal.	Canolfan Bedwyr Canllawiau Brand Prifysgol Bangor	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
18.6		Pan fo Canolfannau Adnoddau'n darparu modiwlau a chysiau drwy'r Gymraeg, gall yr hysbysiaidau a'r deunydd marchnata sy'n ymwneud â'r cysiau hynny fod yn Gymraeg yn unig.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
18.7		Pan na ddefnyddir y ddwy iaith yng ngwaith dysgu ffurfiol unrhyw Ganolfan Adnoddau, dylid cynhyrchu'r hysbysiaidau a'r ohebiaeth ffurfiol yn ddwyieithog a chymryd pob cam ymarferol i ohebu â myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn Gymraeg.	Canolfan Bedwyr	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
18.8		Lle bo iaith hefyd yn bwnc academiaidd, gall y Ganolfan Adnoddau berthnasol gynhyrchu hysbysiaidau yn yr iaith honno'n unig.	Canolfan Bedwyr	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
18.9		Bydd unrhyw arolygon cyhoeddus yng Nghymru a wneir ar ran y Brifysgol fel corff ac sy'n gysylltiedig â hi yn cael eu cynnal yn	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol

		ddwyieithog. Bydd iaith unrhyw arolygon penodol y bydd Canolfan Adnoddau unigol yn eu gwneud ar ran cyrff eraill neu'n rhan o'u gwaith ymchwil academiaidd yn unol â chyfarwyddiadau'r noddwyr.			
	18.10	Bydd y testun ar ddeunyddiau hyrwyddo eraill (e.e. beiros, bagiau) sydd i'w dosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Arddangosfeydd Cyhoeddus a deunyddiau arddangos	19.1	Bydd arddangosfeydd cyhoeddus a deunyddiau arddangos a ddefnyddir yng Nghymru yn ddwyieithog. Os yw'r deunyddiau'n eiddo 3ydd parti, cyfrifoldeb y 3ydd parti fydd trefniadau a chostau cyfieithu'r deunyddiau.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Gweithio mewn Partneriaeth	20.1	Wrth weithio mewn partneriaeth, bydd y Brifysgol yn cydweithio â sefydliadau eraill i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	20.2	Bydd y Brifysgol yn sicrhau nad yw ei gweithdrefnau hi o ran y Gymraeg yn cael eu gwahau wrth weithio mewn partneriaethau.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	20.3	Bydd y Brifysgol yn sicrhau nad yw hi yn gwahau gweithdrefnau sefydliadau eraill o ran y Gymraeg wrth weithio mewn partneriaethau.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

Maes Gwasanaeth			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael	21.1	Bydd y Brifysgol yn ei gwneud yn amlwg bod gwasanaethau dwyieithog ar gael gan y sefydliad mewn amrywiol ffyrdd, yn cynnwys:	Canolfan Bedwyr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol

		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynnal gwefan ddwyieithog ▪ Darparu adnoddau i gefnogi'r Gymraeg ▪ Darparu ffurflenni, llyfrynau a.y.b. yn ddwyieithog ▪ Rhyddhau straeon newyddion yn ddwyieithog ▪ Cynnal ymgyrchoedd marchnata dwyieithog yng Nghymru ▪ Cynnal presenoldeb ar grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ▪ Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ▪ Bydd y dudalen 'Cysylltiadau' ar wefan y Brifysgol yn nodi bod modd cysylltu â'r sefydliad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. 	Marchnata		
--	--	--	-----------	--	--

B Llunio a Diwygio Polisiâu a Mentrau

Yn yr adran hon, mae polisi neu fenter yn cyfeirio at sut y mae'r Brifysgol yn arfer ei swyddogaethau a'r broses penderfyniadau y mae'n ei dilyn. Dylid dilyn yr isod ar gyfer polisiâu neu fentrau ym mhob maes gwaith yn y Brifysgol.

Gweledigaeth y Brifysgol o ran llunio polisi neu fenter mewn perthynas â'r iaith Gymraeg

- Bydd Prifysgol Bangor yn prif ffrydio'r Gymraeg wrth lunio polisiâu gan ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg a lles y Gymraeg ymhob agwedd ar benderfyniadau polisi.
- Bydd Prifysgol Bangor yn gweithredu gyda'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw polisiâu a mentrau'r Brifysgol yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cynnwys fel elfennau trawsbynciol perthnasol wrth ddatblygu polisiâu perthnasol i holl gyfrifoldebau'r sefydliad.
- Bydd Prifysgol Bangor yn datblygu polisiâu a mentrau penodol sy'n creu neu'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- O safbwynt polisi iaith y Brifysgol, fel y mae wedi'i ymgorffori yn y Cynllun hwn, mae'r Brifysgol yn ymrwmo i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau a fydd yn debygol o effeithio ar y Cynllun neu ar Gynlluniau sefydliadau eraill. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn ymrwmo i beidio â diwygio'r Cynllun iaith heb gytundeb Comisiynydd y Gymraeg.

Egwyddorion Sylfaenol

- Wrth ymgynghori yn ystod y cyfnod o ddatblygu polisi, bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn gynrychioladol o ddefnyddwyr y gwasanaeth neu wasanaethau perthnasol sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Bydd strwythur a phroffil staffio unrhyw wasanaeth neu fenter newydd yn hwyluso darparu gwasanaethau fel yr amlinellir yn Adran A y Cynllun Iaith a chyflawni gweithgareddau perthnasol yn y Gymraeg. (Am fwy o wybodaeth am staffio gweler 'Adran C – Gweithredu' a'r 'Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith').
- Bydd pob deunydd a gyhoeddir (ar bapur neu yn electronig) sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Trwy bwyllgorau Prifysgol, Grwpiau Tasg ac Asesiadau Effaith Cydraddoldeb bydd y Brifysgol yn asesu effaith a chanlyniadau polisi (newydd neu ddiwygiedig) ar y Gymraeg.

- Bydd y Brifysgol yn monitro cydymffurfiaeth y sefydliad, neu unrhyw drydydd parti sy'n gweithredu ar ei ran, o ran polisiau a mentrau mewn perthynas â'r Gymraeg.
- Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y staff, yr ymgynghorwyr a'r lleygwyr sy'n gyfrifol am lunio polisiau yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith ac ymrwymadau'r Brifysgol o dan y Ddeddf.
- Wrth lunio mentrau newydd, bydd y Brifysgol yn ystyried anghenion penodol cynulleidfa Gymraeg ac yn cynnig fersiynau amgen i'r fersiwn Saesneg o fentrau pan fo angen.

C Gweithredu

Yn yr adran hon, mae 'gweithredu' yn ymwneud â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y sefydliad.

Gweledigaeth y Brifysgol o ran gweithredu'n ddwyieithog

- Mae Prifysgol Bangor yn annog staff i gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg drwy eu harfer ym mhob agwedd ar eu gwaith ac mae'n ymrwymo i gynnig cyfleodd iddynt wneud hynny.
- Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod y bod datblygu sgiliau iaith Gymraeg staff yn fodd o sicrhau a datblygu safon y gwasanaethau Cymraeg y gall y brifysgol eu cynnig i fyfyrwyr, staff a'r rhai o'r tu allan i'r sefydliad.

Egwyddorion Sylfaenol

- Bydd Prifysgol Bangor yn cofnodi dewis iaith pob aelod o staff.
- Bydd Prifysgol Bangor yn rhoi gwybod i staff fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau bod yr un cyfleoedd ar gael i aelod o staff gyflawni ei d/ddyletswyddau trwy gyfrwng y Gymraeg a phe byddai wedi dewis cyflawni ei (g)weithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Saesneg.
- Bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau bod isadeiledd mewn lle i gefnogi staff i gyflawni eu dyletswyddau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyfleusterau technoleg gwybodaeth, gwasanaethau canolog ac adnodau dynol.
- Bydd Prifysgol Bangor yn parchu dewis iaith y sawl sydd wedi dewis cyfathrebu yn y Gymraeg ac yn delio â hwy yn effeithiol a chwrtais.
- Bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau na fydd oedi mewn perthynas ag amseroedd cyflawni ar gyfer ymateb i neu ymdrin ag aelod o staff sy'n dewis cyflawni ei weithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na thrwy gyfrwng y Saesneg.
- Bydd Prifysgol Bangor yn cymryd camau cadarnhaol i gael gwared â rhwystrau sy'n atal aelod o staff rhag cyflawni ei (g)weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd Prifysgol Bangor yn codi ymwybyddiaeth staff o gyfleoedd perthnasol i gyflawni eu gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn eu hannog i ymgymryd â hwy.

Gweithredu: ymrwymiadau'r Brifysgol o safbwynt hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol Prifysgol Bangor

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol Prifysgol Bangor.

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Strategaeth Sgiliau Dwyieithog	1.1	Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod sgiliau iaith ei staff yn ei galluogi i weinyddu'n effeithiol yn ddwyieithog, i gynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod o feysydd pwnc ac i ymgymryd â phrosiectau ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.	Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Adnoddau Dynol Tiwtor Staff	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
	1.2	Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod gan staff ar draws ystod o feysydd cyfrifoldeb ac ystod o raddfeydd swyddi sgiliau iaith Gymraeg.		Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol
	1.3	Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnal capasiti dwyieithog canolfannau unigol ac i gynllunio'n fwriadus i ddatblygu capasiti dwyieithog mewn meysydd gwaith lle mae angen gwneud hynny.		Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
	1.4	Wrth benodi staff, bydd y Brifysgol yn ystyried gofynion iaith bob swydd ac yn ystyried yr angen i ddiogelu neu ddatblygu proffil ieithyddol canolfan adnoddau.		Pwyllgor Craffu Cod Ymarfer y Cynllun Iaith Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol
	1.5	Bydd bob penodiad newydd yn dilyn y polisi penodi'r Brifysgol mewn perthynas â'r Gymraeg a'r canllawiau manwl sydd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith.		Pwyllgor Craffu Cod Ymarfer y Cynllun Iaith Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol
	1.6	Bydd y broses benodi o'i dechrau i'w diwedd yn dilyn polisi'r Brifysgol mewn perthynas â'r Gymraeg a'r canllawiau manwl sydd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith.		Pwyllgor Craffu Cod Ymarfer y Cynllun Iaith Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol

	1.7	Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gan staff y cyfle i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.		Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
--	-----	---	--	---	-------------

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Recriwtio Staff	2.1	<p>Wrth ystyried y Gymraeg wrth recriwtio, rhaid ystyried yr holl gamau yn y broses recriwtio a phenodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Creu'r swydd a nodi'r gofynion iaith ▪ Creu'r swydd ddisgrifiad ▪ Llunio'r rhestr fer ▪ Cyfweld ▪ Hyfforddi a Monitro <p>Rhaid dilyn y camau yn y Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith yn berthnasol i bob swydd ym Mhrifysgol Bangor. Rhaid i bob rheolwr gyfeirio atynt pan fydd swydd newydd yn cael ei chreu neu pan fydd swydd dros dro yn cael ei gwneud yn barhaol. Rhaid i asiantaethau recriwtio / cyflogaeth hefyd ddefnyddio'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodi yn unol â'r Cynllun Iaith. Gall Canolfan Bedwyr roi arweiniad ar yr egwyddorion sy'n sail i'r Cod Ymarfer; gall Adnoddau Dynol roi arweiniad ar weithredu'r cod ac ar y drefn benodi. Goruchwylir gweithrediad y polisi penodi a'r cod ymarfer gan Bwyllgor Craffu Cod Ymarfer y Cynllun Iaith a gadeirir gan yr Is-ganghellor.</p>	<p>Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith</p> <p>Canolfan Bedwyr</p> <p>Adnoddau Dynol</p>	<p>Pwyllgor Craffu Cod Ymarfer y Cynllun Iaith</p> <p>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol</p>	Gweithredol

	2.2	<p>At ddibenion penodi yn unol â'r Cynllun Iaith, rhaid categorio swyddi i un o dri chategori:</p> <p>Categori 1: Staff Cefnogi Categori 2: Swyddi Academaidd ac Ymchwil Categori 3: Swyddi Uwch Reolwyr Academaidd</p> <p>Dyma'r dewisiadau o ran gofynion iaith sydd ar gael ar gyfer bob categori:</p> <p>Categori 1: Cymraeg yn Hanfodol; Cymraeg yn Hanfodol neu Ymrwymiad i ddysgu hyd at safon benodedig; Cymraeg yn Ddymunol.</p> <p>Categori 2: Cymraeg yn Hanfodol; Cymraeg yn Ddymunol; Dim gofyn iaith penodol. Disgwylir i ymgeiswyr weithio'n gadarnhaol mewn amgylchedd dwyieithog.</p> <p>Categori 3: Cymraeg yn Hanfodol; Cymraeg yn Ddymunol; Dim gofynion iaith penodol.</p>	<p>Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith</p> <p>Canolfan Bedwyr</p> <p>Adnoddau Dynol</p>	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol
	2.3	<p>Isod, diffinnir y gwahanol ofynion iaith:</p> <p>CYMRAEG YN HANFODOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae gallu yn y Gymraeg yn un o feini prawf hanfodol y swyddi hyn. ▪ Mae'n rhaid sicrhau bod gan bawb a gyfwelir y sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Ar gyfer swyddi academaidd, mae hyn yn golygu'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg i safon uchel. 	<p>Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith</p> <p>Canolfan Bedwyr</p> <p>Adnoddau Dynol</p>	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol

	<p>CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU HYD AT SAFON BENOEDIG</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Os nad oes gan unigolion a benodir i'r swyddi hyn y sgiliau Cymraeg angenrheidiol, bydd rhaid cael ymrwymiad cadarn ganddynt i ddysgu ac ymrwymiad cadarn gan y rheolwr i gefnogi'r dysgu. ▪ Mae'n rhaid i reolwyr hefyd ymrwymo i ryddhau'r aelodau staff o'u dyletswyddau yn ystod oriau gwaith er mwyn eu galluogi i gyrraedd y safon ieithyddol angenrheidiol. Bydd rhaid rhyddhau'r aelodau staff o'u swyddi am gyfnod o 1-4 awr yr wythnos (yn dibynnu ar y safon y disgwylir iddynt ei gyrraedd) a/neu am gyfnod parhaus o hyfforddiant dwys. Os nad yw hyn yn bosib, neu os oes angen sgiliau Cymraeg ar yr unigolyn o'r dechrau, dylid rhoi'r swydd yn y categori CYMRAEG YN HANFODOL. ▪ Asesir unrhyw aelod staff sy'n dysgu Cymraeg fel rhan o'u swydd (e.e. trwy sefyll a llwyddo arholiadau iaith) tan iddynt gyrraedd y safon ieithyddol a nodwyd yn eu contract. Caiff cynnydd yr aelod staff ei fonitro'n rheolaidd. Bydd cyrraedd y safon ieithyddol angenrheidiol yn rhan o ofynion cyfnod prawf yr aelod staff. <p>CYMRAEG YN DDYMUNOL</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae gallu yn y Gymraeg yn un o feini prawf dymunol y swyddi hyn. ▪ Asesir gallu yn y Gymraeg fel modd o wahaniaethu rhwng ymgeiswyr sy'n 			
--	--	--	--	--

		<p>gyfartal yn y cyfweiliad ynghyd â meini prawf dymunol eraill.</p> <p>DIM GOFYNION IAITH PENODOL. DISGWYLIR I YMGEISWYR WEITHIO’N GADARNHAOL MEWN AMGYLCHEDD DWYIEITHOG</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid yw gallu yn y Gymraeg yn un o feini prawf y swyddi hyn. 			
	2.4	<p>LLUNIO RHESTR FER</p> <p>Rhaid i sgiliau Cymraeg gael eu ‘sgorio’ yn yr un modd â sgiliau ‘hanfodol’ neu ‘ddymunol’ eraill. Penaethiaid Ysgolion ac Adrannau sy’n gyfrifol am:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ drefnu i unrhyw gais a gyflwynwyd yn y Gymraeg yn unig gael ei gyfieithu (lle bo angen hynny). ▪ sicrhau bod ceisiadau a gyflwynwyd yn y Gymraeg yn unig yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o’r sgrinio cychwynnol a’r broses tynnu rhestr fer. ▪ sicrhau ar gyfer swyddi CYMRAEG YN HANFODOL / CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU I LEFEL BENODOL bod sgiliau iaith yr ymgeiswyr yn cael eu hasesu gan aelod dwyieithog o’r panel llunio rhestr fer. Os nad oes unrhyw un yn yr ysgol/adran a all asesu gallu’r ymgeiswyr o ran y Gymraeg, yna gall cynrychiolydd o Ganolfan Bedwyr wneud hynny. Bydd y cynrychiolydd o Ganolfan Bedwyr yna yn aelod o’r panel cyfweld gyda’r rôl benodol o asesu gallu’r ymgeisydd yn y Gymraeg. ▪ ar gyfer swyddi academiaidd CYMRAEG YN 	<p>Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â’r Cynllun Iaith</p> <p>Canolfan Bedwyr</p> <p>Adnoddau Dynol</p>	<p>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol</p>	<p>Gweithredol</p>

		<p>HANFODOL rhaid i'r Dirprwy Is-ganghellor neu ei gynrychiolydd fod yn aelod o'r panel llunio rhestr fer.</p> <p>CYFWELD Cyfansoddiad y Panel ar gyfer swyddi CYMRAEG YN HANFODOL / CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU I LEFEL BENODOL:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Rhaid i o leiaf un aelod o'r panel cyfweld (heb gynnwys cynrychiolydd Adnoddau Dynol a'r tiwtor iaith) fod yn ddwyieithog er mwyn asesu gallu'r ymgeiswyr yn y Gymraeg. ▪ Os nad oes unrhyw un o fewn yr ysgol / adran a all asesu gallu'r ymgeiswyr yn y Gymraeg, gall cynrychiolydd o Ganolfan Bedwyr wneud hynny. ▪ Mae'n rhaid i'r Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg, neu ei gynrychiolydd, fod yn rhan o'r broses dethol a dewis ar gyfer swyddi academiaidd CYMRAEG YN HANFODOL ac ar gyfer swyddi gweinyddol CYMRAEG YN HANFODOL / CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU sydd ar lefel 9 ac uwch. ▪ Ar gyfer swyddi CYMRAEG YN HANFODOL, bydd y cyfweiliad yn cael ei gynnal yn y Gymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer aelodau'r panel sydd ddim yn siarad Cymraeg. Gellir gofyn i ymgeiswyr ar gyfer swyddi Cymraeg yn Hanfodol ateb rhai cwestiynau yn Saesneg. Mae'r un peth yn wir am ymgeiswyr ar gyfer swyddi Cymraeg yn Ddymunol sydd wedi nodi eu 			
--	--	---	--	--	--

		bod yn dymuno cynnal eu cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg.			
2.5	<p>ASESU LEFELAU IAITH A CHAMAU GWEITHREDU</p> <p>SWYDDI CYMRAEG YN HANFODOL Os nad oes ymgeisydd addas ar gyfer holl agweddau'r swydd, y dewis felly yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ apwyntio rhywun sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol a chynnig hyfforddiant rhesymol a phriodol mewn agweddau eraill o'r gwaith. ▪ ail-hysbysebu ▪ ail-hysbysebu gan ystyried newid rhywfaint ar natur y swydd (heb newid gradd y swydd) fel y bydd mwy o bobl ieithyddol gymwys yn debygol o gael eu denu ati. <p>CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU I LEFEL BENODOL Bydd yn rhaid pwysu a mesur gallu'r ymgeisydd yn y Gymraeg gyda'r sgiliau eraill sydd yn angenrheidiol ar gyfer y swydd. Os nad oes gan yr ymgeisydd sydd wedi dod i'r brig yn y cyfweiliad y sgiliau angenrheidiol yn y Gymraeg, rhaid egluro'r drefn y bydd yn rhaid iddi/o ei dilyn o ran dysgu Cymraeg neu wella ei sgiliau Cymraeg i'r lefel angenrheidiol. Rhaid egluro y bydd dysgu Cymraeg i'r lefel angenrheidiol yn rhan o amodau'r cyfnod prawf.</p> <p>CYMRAEG YN DDYMUNOL Ar gyfer swyddi gyda'r gofyn iaith hwn, bydd</p>	<p>Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith</p> <p>Canolfan Bedwyr</p> <p>Adnoddau Dynol</p>	<p>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol</p> <p>Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr</p>	<p>Gweithredol</p>	

		gallu'r ymgeiswyr yn y Gymraeg ddim ond yn cael ei asesu os teimlir bod dau ymgeisydd yn y cyfweiliad o'r un safon. Byddai gallu yn y Gymraeg wedyn yn cael ei asesu fel modd o wahaniaethu rhwng yr ymgeiswyr cryfaf.			
2.6	HYFFORDDI A MONITRO Lle bo cyrraedd lefel sgiliau penodol yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni gofynion y swydd a lle nad yw'r ymgeisydd yn cyrraedd y safon honno, rhaid cael ymrwymiad gan reolwr llinell y sawl a benodir y bydd yr ymgeisydd yn cael ei ryddhau am gyfnod o'i dd/dyletswyddau i ddilyn rhaglen briodol o gyrsiau a ddarperir gan y Brifysgol ar ei g/chyfer. Bydd dealltwriaeth glir rhwng yr ymgeisydd, yr ysgol / adran a'r sefydliad (drwy'r swyddog Adnoddau Dynol) ynglŷn â'r disgwyliadau ar gyfer yr ymgeisydd o ran dysgu Cymraeg. Pan fydd aelod newydd o staff yn ymuno â'r Brifysgol o dan yr amodau hyn, bydd yr aelod newydd o staff, ei reolwr, tiwtor iaith Gymraeg y Brifysgol / aelod o staff Canolfan Bedwyr yn cyfarfod i ddatblygu Cynllun Datblygu addas. Bydd y rheolwr a'r ymgeisydd yn arwyddo'r Cynllun Datblygu er mwyn dynodi eu hymrwymiad iddo.	Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr Adnoddau Dynol Tiwtor Staff	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol	
2.7	Bydd holl gamau'r broses recriwtio ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy'r system e-recriwtio.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol		
2.8	Bydd yr holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â recriwtio ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. ffurflenni cais, cytundeb cyflogaeth ac unrhyw ddogfennau atodol).	Canolfan Bedwyr Adnoddau Dynol	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol	
2.9	Hysbysebu Swyddi: mae system e-recriwtio'r	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol	

		<p>Brifysgol yn golygu na fydd hysbysebion swyddi yn ymddangos yn llawn yn y wasg brint. Fodd bynnag, os oes hysbyseb yn ymddangos yn llawn yn y wasg brint, dyma'r polisi i'w ddilyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Bydd hysbysebion unrhyw swyddi yn y Brifysgol yn dangos enw'r sefydliad ar ffurf ddwyieithog briodol neu'r arfbais. ▪ Bydd hysbysebion swyddi a gyhoeddir yn y wasg yng Nghymru yn ddwyieithog; felly hefyd unrhyw wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r swyddi hynny. ▪ Bydd unrhyw hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog yn y wasg Gymreig a'r wasg Brydeinig. ▪ Gall unrhyw hysbysebion am swyddi sy'n ymddangos yn y wasg Gymraeg fod yn Gymraeg yn unig. ▪ Gall hysbysebion a fydd yn ymddangos mewn cyhoeddiadau rhyngwladol, pwnc-benodol fod yn Saesneg yn unig. 	Adnoddau Dynol		
--	--	--	----------------	--	--

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Gwasanaethau Corfforaethol i staff	3.1	Bydd gwasanaethau corfforaethol ar gael yn Gymraeg a Saesneg i staff (e.e. gwasanaethau Adnoddau Dynol, cyngor ynglŷn â materion ariannol).	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol
	3.2	Bydd dogfennaeth berthnasol ynglŷn â'r gwasanaethau hyn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg (e.e. canllawiau a ffurflenni).	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol
	3.3	Bydd y Brifysgol yn nodi dewis iaith staff (trwy	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol

		AGRESSO) ac yn defnyddio'r iaith honno mewn gohebiaeth swyddogol ag aelod unigol o staff.			
--	--	---	--	--	--

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Cyfarfod Arolygu Datblygiad Perfformiad	4.1	Mae gan bob aelod o staff yr hawl i gynnal ei adolygiad datblygu perfformiad blynyddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw'r sawl a fyddai fel rheol yn cynnal yr adolygiad datblygu perfformiad yn gallu siarad Cymraeg, gellir trefnu i aelod arall o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg i wneud hynny.	Canolfan Bedwyr Adnoddau Dynol	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Erbyn Haf 2014

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Gwrandawiadau Disgyblu, Apelio a.y.b ar gyfer staff	5.1	Mae gan bob aelod o staff hawl i gynnal gwrandawiadau disgyblu, apelio a.y.b. drwy gyfrwng y Gymraeg gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd os oes angen.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol
	5.2	Os yw'r sawl sy'n cael ei ddisgyblu, neu'r sawl sydd wedi gofyn am apêl, yn siarad Cymraeg, bydd y Brifysgol yn trefnu bod cadeirydd y panel yn gallu siarad Cymraeg.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Datblygu Staff	6.1	Bydd y Brifysgol yn hysbysu'r ffaith fod cyfleodd datblygu staff ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg drwy gynnal gwefan datblygu staff dwyieithog a chyhoeddi deunyddiau datblygu staff dwyieithog. Bydd yr adnoddau hyn yn nodi a yw cwrs yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu gyfrwng y Saesneg.	Canolfan Bedwyr Adnoddau Dynol	Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Datblygu Staff)	Gweithredol
	6.2	Bydd y Brifysgol yn darparu amrediad o	Canolfan Bedwyr	Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau	Gweithredol

		gyfleoedd datblygu proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y deunydd hyfforddi sy'n cefnogi'r cyrsiau hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.		Dynol (Datblygu Staff)	
	6.3	Pan fydd darparwr allanol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyrsiau hyfforddiant proffesiynol, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i gynnal cwrs cyfatebol yn y Gymraeg hefyd. Bydd unrhyw ddeunyddiau a ddarperir gan hyfforddwr allanol ar gyfer cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael yn y Gymraeg. Y darparwr allanol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod deunyddiau yn cael eu cyfieithu os oes angen a hwy fydd yn gyfrifol am dalu am y cyfieithiad.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg	7.1	Bydd Canolfan Bedwyr yn codi proffil y Gymraeg ar draws y sefydliad mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd (e.e. presenoldeb ar bwyllgorau, codi ymwybyddiaeth o bolisi, datblygu adnoddau i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
	7.2	Bydd Canolfan Bedwyr a'r tîm datblygu staff yn darparu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer canolfannau adnoddau. Bydd y cyrsiau hyn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Datblygu Staff)	Gweithredol
	7.3	Bydd cyflwyniad i'r Cynllun Iaith ac i'r gefnogaeth sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Brifysgol yn greiddiol i'r sesiynau cynefino i staff newydd.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Gweithredol

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Hyfforddiant iaith	8.1	Bydd y Brifysgol yn cynnal hyfforddiant o lefel dechreuwr i lefel gloywi iaith.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
	8.2	Pan fydd unigolyn yn cael ei benodi / phenodi gyda gofyn i ddysgu'r Gymraeg yn rhan o'i gytundeb / chytundeb bydd y Tiwtor Cymraeg i Staff / tiwtoriaid gloywi iaith yn cynnal asesiad cychwynnol o sgiliau iaith ac yn darparu cynllun taith iaith.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
	8.3	Pan fydd unigolion / canolfannau adnoddau yn dymuno derbyn hyfforddiant iaith penodol bydd y tîm gloywi iaith a / neu'r tiwtor Cymraeg i staff yn cynnal asesiad o sgiliau iaith a'r math o hyfforddiant sydd ei angen.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
	8.4	Bydd y Brifysgol mor rhagweithiol a hyblyg â phosib wrth gynnig cyfleoedd i staff gynnal a meithrin sgiliau iaith Gymraeg.	Canolfan Bedwyr Tiwtor Staff	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Cyfarfodydd Mewnol	9.1	Bydd gan unrhyw aelod o'r Senedd neu bwyllgor o'r Senedd yr hawl i gyflwyno ei sylwadau yn Gymraeg neu Saesneg.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol
	9.2	Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael mewn pwyllgorau dynodedig (gweler yr adran ar y Cynllun Iaith ar wefan Canolfan Bedwyr). Bydd cadeiryddion y cyfarfodydd hyn yn annog staff sy'n siarad yn y Gymraeg i gyfrannu yn y Gymraeg.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol
	9.3	Bydd y Brifysgol yn darparu canllawiau ar gyfer cadeirio'n ddwyieithog a defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
	9.4	Bydd cofnodion cyfarfodydd dwyieithog ar gael	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd	Gweithredol

		yn y Gymraeg a'r Saesneg.		Cadeiryddion Pwyllgorau	
	9.5	Gall gwahanol bwyllgorau o fewn adrannau ac ysgolion hefyd wneud cais am wasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen.	Canolfan Bedwyr	Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	9.6	Mewn pwyllgorau lle nad oes gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael, gellir gwneud trefniadau eraill anffurfiol ar gyfer cyfieithu, e.e. y cadeirydd yn cyfieithu neu'n sicrhau bod aelod arall o'r pwyllgor yn fodlon cyfieithu neu grynhoi.	Canolfan Bedwyr	Cadeiryddion Pwyllgorau	Gweithredol

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Cyfathrebu mewnol	10.1	Bydd pob e-bost, memorandwm, llythyr, agenda a.y.b. a luniwyd gan weinyddiaeth ganolog y Brifysgol, ac sydd yn cyfarch y staff yn gyffredinol, yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cofrestrydd Academaidd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	10.2	Bydd negeseuon e-bost at grwpiau o staff (e.e. penaethiaid ysgolion, cynrychiolwyr gweinyddol, aelodau grwpiau tasg) sy'n ymwneud â materion swyddogol (e.e. datblygiadau polisi, hysbysiadau pwysig, cyfarfodydd ffurfiol) yn ddwyieithog (os nad yw'r sawl sy'n gyrru'r e-bost yn gwybod beth yw dewis iaith pob unigolyn ar y rhestr).	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cofrestrydd Academaidd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	10.3	Os oes e-bost yn cael ei yrru at aelod unigol o staff gyda'r bwriad ei fod yn cael ei yrru ymlaen at grŵp o staff (e.e. o fewn Coleg) yna bydd yr e-bost gwreiddiol yn cael ei lunio'n ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cofrestrydd Academaidd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	10.4	Os oes angen gyrru gwybodaeth gan 3ydd parti ymlaen drwy e-bost at grwpiau o staff, nid oes angen cyfieithu'r deunyddiau gan y 3ydd parti ond dylid rhoi nodyn dwyieithog ar ddechrau'r	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrydd Cofrestrydd Academaidd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol

		e-bost (e.e. gweler isod / see below). Os yw'r 3ydd parti wedi'i leoli yng Nghymru (yn enwedig cyrff cyhoeddus) dylid gofyn iddynt am fersiwn dwyieithog o'r ddogfen.			
	10.5	Bydd gohebiaeth swyddogol ag aelod o staff yn newis iaith yr aelod o staff fel y nodwyd yn AGRESSO.	Cynllun Iaith Canolfan Bedwyr	Cofrestrwyd Penaethiaid Canolfannau Adnoddau	Gweithredol
	10.6	Bydd Mewnrwyd y Brifysgol yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	
	10.7	Bydd dulliau cyfathrebu corfforaethol (e.e. y Newyddlen Staff) yn ddwyieithog.	Canolfan Bedwyr	Cyfarwyddwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	Gweithredol

Maes Gwaith			Cymorth	Cyfrifoldeb	Amserlen
Technoleg Gwybodaeth	11.1	Bydd meddalwedd sy'n hwyluso defnydd o'r Gymraeg (yn cynnwys y pecyn <i>Cysgliad</i> a'r rhaglen <i>To Bach</i>) ar gael dros rwydwaith y Brifysgol i bob myfyriwr ac aelod o staff.	Canolfan Bedwyr Gwasanaethau TG	Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	11.2	Bydd Canolfan Bedwyr yn darparu hyfforddiant i staff a myfyrwyr ar raglenni sy'n hwyluso defnydd o'r Gymraeg.	Canolfan Bedwyr Cymorth Cymraeg	Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	Gweithredol
	11.3	Bydd Adran Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol yn sicrhau bod rhyngwynebau Cymraeg (a gwirwyr sillafu cysylltiedig) rhaglenni <i>Microsoft</i> , <i>Firefox</i> , <i>Thunderbird</i> a <i>Roundcube</i> ar gael at ddefnydd staff a myfyrwyr drwy rwydwaith y Brifysgol.	Canolfan Bedwyr Gwasanaethau TG	Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	11.4	Bydd y Brifysgol yn dwyn ynghyd ei holl adnoddau ar gyfer hwyluso defnydd o'r Gymraeg mewn un man hygyrch ar wefan y Brifysgol (www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg).	Canolfan Bedwyr Gwasanaethau TG	Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol
	11.5	Bydd llinell gymorth TG y Brifysgol ar gael yn y Gymraeg a Saesneg.	Canolfan Bedwyr Gwasanaethau TG	Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG	Gweithredol

CH Prosesau gwneud penderfyniadau a chadw cofnodion


Mae'r adran hon yn edrych yn benodol ar y prosesau sydd gan y Brifysgol yn eu lle er mwyn gwneud penderfyniadau am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ac o ran cadw cofnodion am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Gweledigaeth y Brifysgol o ran prosesau gwneud penderfyniadau a chadw cofnodion yn ymwneud â'r Gymraeg


- Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu trafod yn eang yn y Brifysgol ac ar lefel y Pwyllgor Gweithredu a Chyngor y Brifysgol. Bydd yn gwneud hyn drwy sicrhau bod strwythur pwyllgorau cadarn mewn lle.
- Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod cofnodion manwl yn cael eu cadw o faterion ystadegol yn ymwneud â'r Gymraeg (e.e. nifer a chanran y gweithlu sy'n siarad Cymraeg).
- Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod cofnod o'r cwynion sydd yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael ei gadw a bod unigolion yn gwybod sut y dylent ddwyn cwyn yn ymwneud â'r Gymraeg i sylw'r Brifysgol.

Strwythur Pwyllgorau yn ymwneud â'r Gymraeg

MATERION RHEOLAETHOL / GWEINYDDOL



MATERION ACADEMAIDD



Trefn Gwyno am weithrediad y Cynllun Iaith

- Os yw myfyriwr, aelod o staff neu unigolyn neu grŵp yn dymuno tynnu sylw'r Brifysgol at ddiffygion yn ei hymwneud â'r Gymraeg, dylid cyfeirio'r gŵyn yn y lle cyntaf at Gyfarwyddwr y Cynllun Iaith yng Nghanolfan Bedwyr, Dyfrdwy, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG, e-bost: cynllun.iaith@bangor.ac.uk, ffôn: (01248 383293).
- Bydd Cyfarwyddwr y Cynllun Iaith (mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Canolfan Bedwyr os oes angen) yn asesu'r gŵyn. Os tybir ei bod yn arwydd o ddiffyg cydymffurfiad â'r Cynllun Iaith, bydd y gŵyn yn cael ei hymchwilio gyda golwg ar ei datrys yn anffurfiol yn y lle cyntaf.
- Os yw'r mater yn un eang ei oblygiadau neu yn gŵyn ddifrifol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith, bydd y mater yn cael ei ddwyn i sylw'r Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg, ac yna i sylw PYCI a / neu Bwyllgor Dwyieithrwydd y Cyngor.
- Bydd Cyfarwyddwr y Cynllun Iaith yn adrodd yn ôl i'r sawl a achwynodd am ganfyddiadau unrhyw ymchwiliad.
- Os yw cwyn yn ymwneud ag ymddygiad aelod o staff, dylid cyfeirio'r mater at yr adran Adnoddau Dynol o dan drefn berthnasol.

Bydd yr adran hon yn cael ei hunioni â threfn gwyno gyffredinol y Brifysgol.

Cadw Cofnodion

- Bydd cofnod o bob cwyn sy'n cael ei derbyn am weithrediad y Cynllun Iaith yn cael ei gadw.
- Bydd rhestr o'r cwynion a dderbynnir yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio Cyngor y Brifysgol yn flynyddol ac i'r Comisiynydd Iaith fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Cynllun Iaith.

Cynllun Academaidd

Cyd-destun Polisi

Trefniadau Gweinyddol

- Mae trefn ganolog o gofnodi a oes gan fyfyrwyr wybodaeth o'r Gymraeg ynghyd â'i ddewis iaith wrth gyfathrebu â'r sefydliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd i ysgolion academaidd a'r holl wasanaethau canolog, ac fe'u hysbysir o'r angen i barchu dewis iaith pob myfyriwr wrth ohebu â hwy yn bersonol.
- Mae'r hawl gan bob myfyriwr i sefyll arholiadau a chyflwyno aseiniadau trwy gyfrwng y Gymraeg, beth bynnag fo cyfrwng addysgu'r cwrs, ac eithrio mewn modiwlau ym maes ieithoedd, lle mae meistrolaeth o'r iaith yn un o feini prawf yr asesiad.
- Mae hawl gan bob myfyriwr i gyflwyno asesiadau llafar drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os nad yw'r sawl sy'n asesu yn siarad Cymraeg.
- Bydd pob ysgol academaidd lle ceir staff sy'n siarad Cymraeg yn ymrwmo i sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwasanaeth tiwtor personol yn eu dewis iaith.
- Gall unrhyw fyfyrwr sy'n teimlo nad yw'r ddarpariaeth Gymraeg yn ddigonol, ddwyn hynny i sylw'r Brifysgol drwy'r system gwyno arferol.
- Bydd y Brifysgol yn mesur boddhad myfyrwyr gyda'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau dwyieithog drwy'r Arolwg Boddhad Myfyrwr mewnol.

Hyrwyddo'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg

- Bydd y Brifysgol yn rhagweithiol yn ei hymdrechion i annog myfyrwyr sydd wedi dilyn cyfran o'u haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg i barhau i wneud hynny yn y Brifysgol.
- Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei marchnata'n drwyadl trwy gyfrwng prosectws penodol, deunydd marchnata, ysgolion undydd, ffeiriau addysg uwch a gwaith cyswllt ysgolion.
- Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a bywyd Cymraeg y Brifysgol yn cael lle amlwg yn y rhaglen ganolog o weithgareddau'r Wythnos Groeso.
- Bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn prif-ffrydio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ei Strategaeth Addysgu a Dysgu, gan adrodd ar y deilliannau yn flynyddol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Datblygu'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg

- Fel rhan o'r drefn sicrhau ansawdd o fewn y Brifysgol, y mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn elfen y disgwylir i bob ysgol academaidd roi sylw iddi yn y ffurflenni arolwg blynyddol y mae gofyn iddynt eu llenwi ar gyfer pob cwrs.

- Wrth gyflwyno cynigion am gyrsiau a modiwlau newydd, y mae disgwyl i bob ysgol academaidd ystyried priodoldeb darparu'r cwrs neu'r modiwl drwy gyfrwng y Gymraeg. I'r perwyl hwn, y mae'r ffurflenni perthnasol yn cynnwys adran benodol i'r diben hwn.
- Bydd ysgolion academaidd, wrth drefnu cyfnodau o leoliadau proffesiynol i'w myfyrwyr, yn gwneud yr hyn sy'n ymarferol i sicrhau bod cyfle i'r rhai hynny sy'n medru'r Gymraeg gael profiad mewn awyrgylch Gymraeg neu ddwyieithog lle gallant ymarfer y Gymraeg.
- Bydd y Brifysgol yn chwarae rhan flaenllaw yn holl weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i'r hyn a gynnigir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (e.e. trwy greu a chynnal swyddi darlithio cyfrwng Cymraeg).

Cefnogi'r Myfyrwyr

- Bydd Canolfan Bedwyr yn cynnig modiwlau ar gyfer cynyddu lefelau hyder a hyfedredd ieithyddol myfyrwyr sydd naill ai'n Gymry Cymraeg neu'n ddysgwyr rhugl. Bydd sesiynau arbennig i hyrwyddo'r gwasanaeth hwn yn cael eu cynnal yn ystod yr Wythnos Groeso ac yn y Ffair Fodiwlau a bydd manylion am y modiwlau yn y Llawlyfr Modiwlau Cymraeg / Dwyieithog Blwyddyn 1. Bydd gwybodaeth am y modiwlau hefyd yn cael eu rhannu gyda phob ysgol academaidd.
- Bydd y Brifysgol yn cynnal a datblygu rhaglen lawn o gyrsiau Cymraeg i Oedolion. Bydd y rhain yn agored i fyfyrwyr cofrestredig yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae gwybodaeth lawn am y cyrsiau hyn ar gael drwy Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru.
- Bydd y Brifysgol yn darparu cefnogaeth gloywi iaith i fyfyrwyr i'w paratoi ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd y gefnogaeth hon yn cael ei hyrwyddo gan Swyddog Cangen Bangor o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan diwtoriaid iaith a thrwy'r cydlynwyr cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgolion Academaidd.
- Bydd y Brifysgol yn darparu cefnogaeth ymarferol a chynhaliadaeth i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. trwy Ganolfan Bedwyr a'r Ganolfan Sgiliau Astudio) yn ychwanegol i'r gefnogaeth a roddir gan eu hysgolion academaidd.
- Bydd Canolfan Ddyslecsia Miles yn sicrhau bod cynhaliadaeth ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.
- Bydd gwasanaethau gofal y Brifysgol ar gael i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Dysgu Dwyieithog

- Mae gan Brifysgol Bangor profiad helaeth ym maes dysgu dwyieithog yn enwedig mewn meysydd pwnc fel Gwyddorau Gofal Iechyd ac Addysg. Mae'r egwyddorion sy'n sail i ddatblygiad dysgu dwyieithog ym Mangor yn ymwneud â chynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a'u paratoi ar gyfer y gweithle.
- Mae nifer o fodolau posib ar gyfer dysgu dwyieithog ac nid yw'r Brifysgol yn dynodi'n gaeth pa fodel y dylid ei ddefnyddio. Gellir derbyn cymorth ac arweiniad ynglŷn â phosibiliadau dysgu dwyieithog gan Ganolfan Bedwyr a chan aelodau o staff cyfrwng Cymraeg sy'n brofiadol ym maes dysgu dwyieithog.

- Ni fydd dysgu dwyieithog ar unrhyw gyfrif yn cael ei ddefnyddio i lastwreiddio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid cydnabod hefyd na fydd yn bosib i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yng nghyd-destun eu hastudiaethau heb fod elfen o gefnogaeth cyfrwng Cymraeg ar gael iddynt fel rhan o'r cwrs. Nid yw'r ffaith fod sleidiau *PowerPoint* neu daflenni cwrs ar gael yn ddwyieithog yn ddigonol ynddi'i hun i alw cwrs neu fodiwl yn un dwyieithog. Os yw'r ddarlith yn cael ei thraddodi yn Saesneg, dylai adnoddau cefnogol o'r fath gael eu cyflwyno i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. mewn tiwtorialau cyfrwng Cymraeg neu mewn grwpiau trafod cyfrwng Cymraeg a fydd wedi'u hwyluso gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n arbenigo yn y maes pwnc).

Ymchwil

- Bydd y Brifysgol yn cefnogi a hyrwyddo gwaith academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd y Brifysgol yn eiriol dros waith ymchwil cyfrwng Cymraeg mewn fforymau Cymreig a Phrydeinig (e.e. yng nghyd-destun REF).
- Pan fydd unigolion neu grwpiau ymchwil yn cynnal ymchwil gyda'r cyhoedd yng Nghymru, bydd dewis iaith yr unigolion yr ymdrinnir â hwy yn cael ei barchu (e.e. wrth gynnal grwpiau ffocws neu wrth rannu holiaduron). Os oes anawsterau'n codi o ran prosesau dilysu ar gyfer holiaduron, bydd yr ysgol academaidd yn egluro'r sefyllfa wrth yr unigolion angenrheidiol ac yn darparu cyfieithiad answyddogol o'r holiadur er mwyn hwyluso dealltwriaeth y sawl sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil. Pan fydd ysgol academaidd yn darparu cyfieithiad answyddogol o holiadur, bydd ar gael yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- Pan nad yw mesur ymchwil ar gael yn y Gymraeg, bydd y Brifysgol yn ystyried a oes modd edrych yn rhagweithiol ar y sefyllfa, er enghraifft, drwy gynnig cyngor ynglŷn â pharatoi cyfieithiad safonol a llunio rhestr o ofynion ar gyfer ei dilysu'n ieithyddol.

Cynllun darpariaeth cyfrwng Cymraeg Prifysgol Bangor

Fel y nodir yn ei chynllun strategol ar gyfer 2010-2015, mae Prifysgol Bangor yn ymrwymedig i gynnig addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf. Bydd yn gwneud hyn drwy chwarae rhan flaenllaw yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a hynny drwy sicrhau bod ei darpariaeth academaidd - yr ymchwil a'r addysgu - o safon ragorol.

Bydd Prifysgol Bangor yn cynnal ei chryfderau traddodiadol ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg a hefyd yn ymestyn ei darpariaeth i feysydd newydd, yn enwedig meysydd lle mae'r iaith Gymraeg yn sgil galwedigaethol allweddol i weithwyr proffesiynol yng Nghymru. Bydd sicrhau fod gan y Brifysgol academyddion disglair a fydd yn arwain dysgu ac ymchwil cyfrwng Cymraeg mewn ystod o ddisgyblaethau yn flaenoriaeth.

Bydd y gweithgareddau dysgu ac ymchwil hyn yn cael eu cefnogi gan waith blaengar ym maes polisi iaith, cefnogaeth ieithyddol i staff a myfyrwyr, cyfieithu, technolegau iaith, datblygu staff, marchnata a recriwtio. Mae'r Brifysgol hefyd yn meithrin partneriaethau allweddol gyda sefydliadau a chwmnïau allanol er mwyn cyfoethogi'r profiad dysgu cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr ac ymateb i'r agenda sgiliau a chyflogadwyedd.

Nod Prifysgol Bangor felly yw rhoi i'w staff a'i myfyrwyr brofiad cynhwysfawr o addysgu, dysgu ac ymchwilio drwy gyfrwng y Gymraeg a hynny mewn sefydliad lle y rhoddir bri ar yr iaith. Trwy wneud hyn bydd Prifysgol Bangor yn cynnal a datblygu ymhellach ei safle fel prif ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg Cymru.

Mae prif nodau strategol y Brifysgol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

Cynyddu'r nifer o fodiwlau a chyrsgiau cyfan sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg

BAND	MEYSYDD ASTUDIO	DISGRIFIAD	BWRIAD
A	Cerddoriaeth Hanes a Hanes Cymru Gwyddorau Cymdeithas Diwydiannau Creadigol Addysg	Meysydd lle mae traddodiad hir o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Cynnal ac ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Mae penodiadau cyfrwng Cymraeg newydd eisoes wedi'u gwneud yn y meysydd hyn a fydd yn cynnig arbenigeddau newydd ar gyfer cyrsiau gradd.
B	Y Gyfraith Busnes Ieithoedd Modern Ieithyddiaeth Gwyddorau Amgylcheddol Cemeg Seicoleg Gwyddorau Iechyd Gwyddorau Biolegol Dysgu Gydol Oes	Meysydd lle mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi ehangu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ond lle nad oes modd gwneud cwrs llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.	Cynnal y momentwm sydd eisoes wedi'i greu a'i ddatblygu ymhellach er mwyn cynnig nifer uwch o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn cwrs gradd. Mae penodiadau cyfrwng Cymraeg newydd wedi'u gwneud / ar y gweill yn y meysydd hyn.
C	Gwyddorau Chwaraeon Electroneg Cyfrifiadureg Gwyddorau Eigion	Meysydd lle nad oes traddodiad o weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a lle mae'r ddarpariaeth gyfredol yn brin.	Cynyddu nifer y credydau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae penodiadau PhD cyfrwng Cymraeg wedi'u gwneud mewn tri o'r meysydd hyn. Bwriedir hefyd ehangu i faes Electroneg. Bydd y penodiadau hyn yn fodd o roi sylfaen i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cyfoethogi'r portffolio cyfrwng Cymraeg er mwyn cyfrannu tuag at greu gweithlu sgiliau uchel ar gyfer yr economi Gymreig

MAES BLAENORIAETH	DISGRIFIAD	GWEITHGAREDD ENGHREIFFTIOL
Cyrsiau	Datblygu cyrsiau, yn enwedig ar y lefel ôl-radd, sy'n ateb y galw am weithwyr proffesiynol mewn meysydd allweddol sy'n gallu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Datblygu MPA cyfrwng Cymraeg.
Cyfleoedd profiad gwaith fel rhan o gwrs isradd / ôl-radd	Datblygu ymwybyddiaeth myfyrwyr o fyd gwaith a rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau allweddol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod eu cwrs gradd drwy gyfleoedd lleoliadau gyda chyrff a busnesau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Cyfleoedd cyfrwng Cymraeg drwy bartneriaethau KTP.

Chwarae rhan allweddol yn natblygiadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol drwy rannu ein harbenigeddau pynciol, pedagogaid a gweinyddol ym maes dysgu, ymchwil a chefnogi cyfrwng Cymraeg gyda sefydliadau eraill yng Nghymru.

ARBENIGEDD	GWEITHGAREDD ENGHREIFFTIOL
Pynciol	Cynyddu'r nifer o fodiwlau cydweithredol y mae Bangor yn eu harwain.
Pedagogaid	Rhannu arbenigeddau ym maes cefnogaeth ieithyddol i fyfyrwyr trwy ddatblygiad y Dystysgrif Sgiliau Cenedlaethol a chyflwyno elfennau sgiliau iaith fel rhan o fodiwl.
Isadeiledd i hwyluso astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	Parhau i arloesi ym maes terminoleg a chyfieithu ar y pryd mewn sefyllfaoedd dysgu.
Gweinyddol	Rhannu arbenigedd o ran cynnal strwythur cynllunio a chefnogi cyfrwng Cymraeg.

Parhau i hyrwyddo'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth cyfrwng Cymraeg drwy amrywiol ddulliau i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol

CYNULLEIDFA DARGED	GWEITHGAREDD ENGHREIFFTIOL
Darpar fyfyrwyr	Parhau i weithio'n agos ac effeithiol gydag ysgolion Cymru. Cydweithio ag ymgyrch Mantais.
Myfyrwyr cyfredol	Edrych yn gyson am ddulliau newydd ac arloesol o godi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg - e.e. yn ystod yr Wythnos Groeso.



ATODIAD

Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith

COD YMARFER AR BENODI STAFF YN UNOL Â'R CYNLLUN IAITH

RHAGARWEINIAD

Mae Prifysgol Bangor wedi ei lleoli mewn ardal ddwyieithog lle mae oddeutu 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae canran uchel o staff a myfyrwyr y brifysgol hefyd yn ddwyieithog. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn dangos ymrwymiad Prifysgol Bangor i ddatblygu gweithlu a all weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg at ddibenion addysgu, ymchwil a gweinyddiaeth. Mae hynny yn ei dro yn dangos ymrwymiad y brifysgol, yn unol â'r hyn a bwysleisir yng Nghynllun Strategol 2010-2015 a'r Cynllun Iaith, i gydnabod gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gwaith a phwysigrwydd cynnig gwasanaeth dwyieithog mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod ei dyletswyddau deddfwriaethol yn hyn o beth. Mae'r canllawiau canlynol wedi eu llunio i gynorthwyo rheolwyr i feithrin timau fydd yn gallu gweithredu'n ddwyieithog.

Sylwch ar y pwyntiau canlynol:

- Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob swydd ym Mhrifysgol Bangor. Dylai pob rheolwr gyfeirio atynt pan grëir swydd newydd neu pan wneir swydd dros dro yn swydd parhaol.¹
- Dylai asiantaethau recriwtio/cyflogaeth hefyd ddefnyddio'r canllawiau hyn.
- Gellir gofyn i Ganolfan Bedwyr am arweiniad ar yr egwyddorion sy'n sail i'r Cod Ymarfer; gellir gofyn i Adnoddau Dynol am arweiniad ar weithredu'r cod ac ar y drefn benodi.
- Goruchwylir gweithrediad y cod gan Bwyllgor Craffu Cod Ymarfer y Cynllun Iaith, a gadeirir gan yr Is-ganghellor.

Y DREFN

Pan grëir swydd newydd, mae'n rhaid i'r rheolwr benderfynu a yw sgiliau Cymraeg yn berthnasol i'r swydd a pha fath o sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion y swydd. Bydd y penderfyniadau hyn yn dibynnu ar y canlynol:

- math o swydd
- natur y swydd
- sgiliau iaith y tîm
- cyfrifoldebau'r tîm

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bob cam o'r broses benodi fel yr amlinellir isod:

1. **Creu'r swydd a nodi'r gofynion iaith.** Gweler y manylion isod.
2. **Creu'r swydd-ddisgrifiad:** nodi'r math o sgiliau iaith fydd eu hangen.
3. **Llunio'r rhestr fer:** sicrhau y caiff gofynion iaith y swydd eu hystyried (e.e. wrth ddewis y panel cyfweld).
4. **Cyfweld:** sicrhau y caiff gofynion iaith y swydd eu hystyried (e.e. wrth ddewis y panel cyfweld).
5. **Hyfforddi a monitro:** sicrhau y caiff yr ymgeisydd llwyddiannus y gefnogaeth angenrheidiol i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg os oes angen.

¹ Pan roddir contract parhaol i aelod staff ar ôl pedair blynedd o gyflogaeth mewn swydd, ni adolygir gofynion iaith y swydd honno.

Bydd y canllawiau i benderfynu ar ofynion iaith swydd yn dibynnu ar y math o swydd a grëir. At ddibenion y Cod Ymarfer hwn, rhoddir pob swydd yn un o'r tri chategori isod:

Categori 1: Staff Cefnogi (swyddi maniwal, clericyddol, rheolaethol a phroffesiynol).

Categori 2: Swyddi Academaidd ac Ymchwil

Categori 3: Swyddi Uwch Reolwyr Academaidd (e.e. penaethiaid ysgolion, penaethiaid colegau, dirprwy is-gangellorion).

GOFYNION IAITH: Categori 1 - Staff cefnogi

Dyma'r dewisiadau o ran GOFYNION IAITH y swyddi hyn:

- CYMRAEG YN HANFODOL
- CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU HYD AT SAFON PENODEDIG²
- CYMRAEG YN DDYMUNOL

CYMRAEG YN HANFODOL

- Mae gallu yn y Gymraeg yn un o feini prawf hanfodol y swyddi hyn.
- Mae'n rhaid sicrhau bod gan bawb a gyfwelir y sgiliau Cymraeg angenrheidiol.

CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU HYD AT SAFON PENODEDIG

- Os nad oes gan unigolion a benodir i'r swyddi hyn y sgiliau Cymraeg angenrheidiol, bydd rhaid cael ymrwymiad cadarn ganddynt i ddysgu ac ymrwymiad cadarn gan y rheolwr i gefnogi'r dysgu.
- Mae'n rhaid i reolwyr hefyd ymrwymo i ryddhau'r aelodau staff o'u dyletswyddau **yn ystod oriau gwaith** er mwyn eu galluogi i gyrraedd y safon ieithyddol angenrheidiol. Bydd rhaid rhyddhau'r aelodau staff o'u swyddi am gyfnod o 1-4 awr yr wythnos (yn dibynnu ar y safon y disgwylir iddynt ei gyrraedd) a/neu am gyfnod parhaus o hyfforddiant dwys. Os nad yw hyn yn bosib, neu os oes angen sgiliau Cymraeg ar yr unigolyn o'r dechrau, dylid rhoi'r swydd yn y categori CYMRAEG YN HANFODOL.
- Asesir unrhyw aelod staff sy'n dysgu Cymraeg fel rhan o'u swydd (e.e. trwy sefyll a llwyddo arholiadau iaith) tan iddynt gyrraedd y safon ieithyddol a nodwyd yn eu contract. Caiff cynnydd yr aelod staff ei fonitro'n rheolaidd. Bydd cyrraedd y safon ieithyddol angenrheidiol yn rhan o ofynion cyfnod prawf yr aelod staff.

CYMRAEG YN DDYMUNOL

- Mae gallu yn y Gymraeg yn un o feini prawf dymunol y swyddi hyn.
- Asesir gallu yn y Gymraeg fel modd o wahaniaethu rhwng ymgeiswyr sy'n gyfartal yn y cyfweiliad ynghyd â meini prawf dymunol eraill.

² Fel rheol, cedwir y categori hwn ar gyfer swyddi arbenigol lle gall nifer yr ymgeiswyr cymwys fod yn gyfyngedig.

DEWIS GOFYNION IAITH ADDAS I SWYDDI GWEINYDDOL

Mae **siart A a B** yn rhoi arweiniad i reolwyr wrth benderfynu ar ofynion iaith swydd. Dylid defnyddio'r siartiau fel a ganlyn:

- Siart A i swyddi ar raddfa 1-6
- Siart B i swyddi gweinyddol/rheolaethol ar raddfa 7 ac uwch

Nodiadau esboniadol i'r siartiau:

CYSWLLT RHEOLAIDD: cyswllt sy'n digwydd pob diwrnod, neu bob yn ail ddiwrnod, trwy gydol yr wythnos waith.

CAPASITI DWYIEITHOG DIGONOL: 65% o'r tîm yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg (mae'r ganran hon yn cydfynd â chanran aelodau staff y brifysgol sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg).

Siart A: Swyddi Graddau 1-6

Ydy deilydd y swydd mewn cyswllt cyson gyda staff / myfyrwyr / unigolion neu sefydliadau allanol yng Nghymru?

Nac Ydy.

Ydy.

Ydy dyletswyddau fel rhoi gwybodaeth, rhoi cyngor, ateb cwestiynau yn rhan bwysig o'r swydd?

Nac Ydy..

Ydy..

Ydy gwaith y tîm yn gyffredinol yn ymwneud â darparu gwasanaeth?

Ydy capasati'r tîm i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddigonol ar hyn o bryd?.

Nac Ydy.....

Ydy.....

Ydy...

Nac Ydy...

Ydy capasati'r tîm i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddigonol ar hyn o bryd?..

Mae hon yn swydd Cymraeg yn Hanfodol


Ydy....

Nac Ydy....

Mae hon yn swydd Cymraeg yn Ddymunol

Mae hon yn swydd Cymraeg yn Hanfodol / Cymraeg yn Hanfodol neu Ymrwymiad i Ddysgu

Siart B: Swyddi Gradd 7 ac Uwch



GOFYNION IAITH: Categori 2: Swyddi Academaidd ac Ymchwil

Dyma'r dewisiadau o ran GOFYNION IAITH y swyddi hyn:

- CYMRAEG YN HANFODOL
- CYMRAEG YN DDYMNOL
- DIM GOFYNION IAITH PENODOL. DISGWYLIR I YMGEISWYR WEITHIO'N GADARNHAOL MEWN AMGYLCHEDD DWYIEITHOG

CYMRAEG YN HANFODOL

- Mae gallu yn y Gymraeg yn un o feini prawf hanfodol y swyddi hyn.
- Mae'n rhaid sicrhau bod gan bawb a gyfwelir y sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Ar gyfer swyddi academaidd, mae hyn yn golygu'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg i safon uchel.


DIM GOFYNION IAITH PENODOL. DISGWYLIR I YMGEISWYR WEITHIO'N GADARNHAOL MEWN AMGYLCHEDD DWYIEITHOG

- Nid yw gallu yn y Gymraeg yn un o feini prawf y swyddi hyn.

DEWIS GOFYNION IAITH ADDAS I SWYDDI ACADEMAIDD AC YMCHWIL

- Mae **siart C** yn rhoi arweiniad i reolwyr wrth benderfynu ar ofynion iaith swydd.

Siart C: Swyddi Academaidd ac Ymchwil



GOFYNION IAITH: Categori 3 – Swyddi Uwch Reolwyr Academaidd

Lluniwyd adran hon y Cod Ymarfer i roi arweiniad ar benodi uwch reolwyr academaidd (e.e. penaethiaid ysgolion, penaethiaid colegau, dirprwy is-gangellorion). Ymdrinnir â'r swyddi hyn mewn dull gwahanol i swyddi academaidd eraill gan fod y swyddi'n cyfuno cyfrifoldebau academaidd a rheolaethol a swyddi cyfnod penodol ydynt yn aml.

Canllawiau

Dylid cadw'r canlynol mewn cof wrth benodi i'r swyddi hyn:

- Mae'r swyddi hyn yn allweddol i'r gwaith o gyflawni amcanion y brifysgol, fel y nodir yn y cynllun strategol, sef cryfhau gweithgareddau rheoli a gweinyddu dwyieithog a'u gwneud yn rhan greiddiol o'r sefydliad a chefnogi addysgu ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'n rhaid sicrhau bod capasiti dwyieithog digonol ymhlith uwch reolwyr y sefydliad.
- Mewn meysydd pwnc lle ceir elfen gref o addysgu ac ymchwil cyfrwng Cymraeg a/neu lle mae'r Gymraeg yn sgil galwedigaethol pwysig, mae'n rhaid cydnabod y gallu i ymdrin â myfyrwyr a chyrrff allanol trwy gyfrwng y Gymraeg fel sgil proffesiynol pwysig.
- Mae unigolion a benodir i uwch swyddi academaidd yn dylanwadu ar ddiwylliant ieithyddol eu maes cyfrifoldeb ac ar iaith gwaith y maes hwnnw.

Ar ôl ystyried yr uchod, dylai aelodau'r panel bennu un o'r gofynion iaith canlynol i'r swyddi hyn:

- Cymraeg yn hanfodol
- Cymraeg yn ddymunol
- Dim gofynion iaith penodol

Trefniadau monitro

Pwyllgor Craffu Cod Ymarfer y Cynllun Iaith sy'n gyfrifol am gynnal cydbwysedd ieithyddol ymhlith yr uwch reolwyr academaidd a benodir. Mae'r pwyllgor hwnnw'n cynnwys y canlynol: Yr Is-ganghellor (Cadeirydd), y Cofrestrydd, y Dirprwy Is-ganghellor (Cyfrwng Cymraeg a Chysylltiad â'r Gymuned), Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr.

Prif swyddogaeth y pwyllgor craffu yw goruchwylio penodiadau i uwch swyddi academaidd a sicrhau y caiff y Gymraeg ystyriaeth addas yn ystod y broses recriwtio (h.y. sicrhau y caiff y materion a amlinellwyd uchod ystyriaeth briodol). Bydd Adnoddau Dynol yn rhoi gwybod i'r pwyllgor craffu pob tro y daw swydd uwch academydd yn wag. Os nad yw'r pwyllgor yn teimlo bod y cydbwysedd ieithyddol yn cael ei gynnal neu nad yw pwysigrwydd y Gymraeg fel sgil proffesiynol yn cael ystyriaeth briodol wrth recriwtio i swydd, yna bydd y pwyllgor yn ymyrryd yn y broses recriwtio.

CREU SWYDD-DDISGRIFIAD

Pan fydd gofynion iaith swydd wedi eu pennu, bydd rhaid penderfynu ar y sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y swydd yn achos swyddi Cymraeg yn hanfodol/Cymraeg yn hanfodol neu ymrwymiad i ddysgu. Gall Canolfan Bedwyr ac Adnoddau Dynol roi arweiniad ar hyn ac mae cronfa o ddisgrifwyr ar gael at eich defnydd.

SWYDDI GWEINYDDOL: SENARIOS POSIB

Swydd A: Bydd gofyn i ymgeiswyr allu siarad ac ysgrifennu Cymraeg i safon uchel (e.e. swyddog marchnata, cyfieithydd, hyfforddwr). Felly, dylai'r swydd-ddisgrifiad nodi: *Mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd yn hanfodol i'r swydd hon.*

Swydd B: Bydd gofyn i ymgeiswyr allu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl ac ysgrifennu amrywiaeth o negeseuon e-bost yn Gymraeg (e.e. swyddog clerdyddol, cynorthwywr personol). Felly, dylai'r swydd-ddisgrifiad nodi: *Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl a chyflawni tasgau megis ysgrifennu negeseuon e-bost yn Gymraeg at amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn hanfodol i'r swydd hon.*

Swydd C: Bydd gofyn i ymgeiswyr gyflawni rhai tasgau yn Gymraeg (e.e. Rheolwr Project TG). Felly, dylai'r swydd-ddisgrifiad nodi: *Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hyderus i gyflawni rhai tasgau yn hanfodol i'r swydd hon – e.e. cyfrannu at gyfarfodydd dwyieithog ac ysgrifennu negeseuon e-bost syml yn Gymraeg.*

Swydd D: Bydd gofyn i ymgeiswyr allu siarad Cymraeg ym mwyafrif y sefyllfaoedd sy'n berthnasol i'r swydd, ond ni fydd gofyn iddynt ddarllen nac ysgrifennu Cymraeg (e.e. swyddog diogelwch). Felly, dylai'r swydd-ddisgrifiad nodi: *Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hyderus i gyflawni rhai tasgau yn hanfodol i'r swydd hon – e.e. siarad gydag aelodau staff a myfyrwyr, ateb galwadau ffôn, ymdrin ag ymholiadau brys yn Gymraeg.*

Swyddi Cymraeg yn hanfodol neu ymrwymiad i ddysgu: Dylid ychwanegu'r canlynol at y disgrifwyr uchod: *Croesawir ceisiadau gan rai sydd wedi ymrwymo i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i'r safon hwn.*

Cymraeg yn ddymunol: Nid oes rhaid cynnwys disgrifiad o'r sgiliau iaith angenrheidiol yn y categori iaith hwn, ond gellir gwneud hynny os bydd rheolwyr wneud yn dymuno hynny. Gall rheolwyr hefyd gynnwys y frawddeg ganlynol: *Os nad yw ymgeiswyr yn gallu siarad/ysgrifennu Cymraeg ar hyn o bryd, ceir llawer o gyfleoedd i ddysgu os bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dymuno hynny.*

SWYDDI ACADEMAIDD

Cymraeg yn hanfodol: Dylai'r swydd-ddisgrifiad nodi bod y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hanfodol i'r swydd hon.

Dim gofynion iaith penodol. Disgwylir i ymgeiswyr weithio'n gadarnhaol mewn amgylchedd dwyieithog: dylai'r swydd-ddisgrifiad nodi: *Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad dwyieithog a disgwylir i bob aelod staff weithio mewn modd cadarnhaol yn yr amgylchedd dwyieithog hwn.*

LLUNIO'R RHESTR FER

Dylai sgiliau Cymraeg gael eu 'sgorio' yn yr un modd â sgiliau eraill sydd yn y categorïau 'hanfodol' neu 'dymunol'. Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cynnig canllawiau ar y broses o dynnu rhestr fer. Dylid nodi mai Penaethiaid Ysgolion / Adrannau sy'n gyfrifol am:

- drefnu i unrhyw gais a gyflwynwyd yn y Gymraeg yn unig gael ei gyfieithu (lle bo angen hynny).
- sicrhau bod ceisiadau a gyflwynwyd yn y Gymraeg yn unig yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r sgrinio cychwynnol a'r broses tynnu rhestr fer.
- sicrhau ar gyfer swyddi CYMRAEG YN HANFODOL / CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU I LEFEL BENODOL bod sgiliau iaith yr ymgeiswyr yn cael eu hasesu gan aelod dwyieithog o'r panel llunio rhestr fer. Os nad oes unrhyw un yn yr ysgol/adran a all asesu gallu'r ymgeiswyr o ran y Gymraeg, yna gall cynrychiolydd o Ganolfan Bedwyr wneud hynny. Bydd y cynrychiolydd o Ganolfan Bedwyr yna yn aelod o'r panel cyfweld gyda'r rôl benodol o asesu gallu'r ymgeisydd yn y Gymraeg.
- ar gyfer swyddi academiaidd CYMRAEG YN HANFODOL rhaid i'r Dirprwy Is-ganghellor neu ei gynrychiolydd fod yn aelod o'r panel llunio rhestr fer.

CYFWELD

Cyfansoddiad y Panel ar gyfer swyddi CYMRAEG YN HANFODOL / CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU I LEFEL BENODOL:

- Rhaid i o leiaf un aelod o'r panel cyfweld (heb gynnwys cynrychiolydd Adnoddau Dynol a'r tiwtor iaith) fod yn ddwyieithog er mwyn asesu gallu'r ymgeiswyr yn y Gymraeg.
- Os nad oes unrhyw un o fewn yr ysgol / adran a all asesu gallu'r ymgeiswyr yn y Gymraeg, gall cynrychiolydd o Ganolfan Bedwyr wneud hynny. (Fel rhan o hyfforddiant recriwtio gall yr adran Datblygu Staff o fewn Adnoddau Dynol ddarparu hyfforddiant ar asesu gallu yn y Gymraeg).
- Mae'n rhaid i'r Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg, neu ei gynrychiolydd, fod yn rhan o'r broses dethol a dewis ar gyfer swyddi academiaidd CYMRAEG YN HANFODOL ac ar gyfer swyddi gweinyddol CYMRAEG YN HANFODOL / CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU sydd ar lefel 9 ac uwch.
- Ar gyfer swyddi CYMRAEG YN HANFODOL, bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal yn y Gymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer aelodau'r panel sydd ddim yn siarad Cymraeg. Gellir gofyn i ymgeiswyr ar gyfer swyddi Cymraeg yn Hanfodol ateb rhai cwestiynau yn Saesneg. Mae'r un peth yn wir am ymgeiswyr ar gyfer swyddi Cymraeg yn Ddymunol sydd wedi nodi eu bod yn dymuno cynnal eu cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg.

ASESU LEFELAU IAITH

CYMRAEG YN HANFODOL: Mae'n rhaid mesur a yw'r sgiliau angenrheidiol gan yr ymgeiswyr yn Gymraeg. (Golyga hyn y gallu i wneud yn Gymraeg beth fydddech yn disgwyl iddyn nhw ei wneud yn Saesneg ar gyfer swydd cyfrwng Saesneg, e.e. ateb cwestiwn / gwneud cyflwyniad / ysgrifennu llythyr neu adroddiad). Gellir asesu sgiliau llafar yr ymgeisydd yn y cyfweliad.

- Gellir asesu sgiliau ysgrifenedig yr ymgeisydd drwy'r ffurflen gais.
- Gellir hefyd osod prawf ysgrifenedig ychwanegol ac mae arweiniad a chanllawiau ar hyn i'w cael gan Ganolfan Bedwyr.

Os nad oes ymgeisydd addas ar gyfer holl agweddau'r swydd, y dewis felly yw:

- apwyntio rhywun sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol a chynnig hyfforddiant rhesymol a phriodol mewn agweddau eraill o'r gwaith.

- ail-hysbysebu
- ail-hysbysebu gan ystyried newid rhywfaint ar natur y swydd (heb newid gradd y swydd) fel y bydd mwy o bobl ieithyddol gymwys yn debygol o gael eu denu ati.

CYMRAEG YN HANFODOL NEU YMRWYMIAD I DDYSGU I LEFEL BENODOL

Bydd yn rhaid pwysu a mesur gallu'r ymgeisydd yn y Gymraeg gyda'r sgiliau eraill sydd yn angenrheidiol ar gyfer y swydd. Un ystyriaeth ymhlith nifer fydd y Gymraeg mewn achos o'r fath. Os nad oes gan yr ymgeisydd sydd wedi dod i'r brig yn y cyfweiliad y sgiliau angenrheidiol yn y Gymraeg, rhaid egluro'r drefn y bydd yn rhaid iddi/o ei dilyn o ran dysgu Cymraeg neu wella ei sgiliau Cymraeg i'r lefel angenrheidiol. Dylid disgrifio'r math o dasgau y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus allu eu cyflawni yn y Gymraeg unwaith y bydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol a hefyd egluro'r gefnogaeth fydd ar gael i sicrhau hynny. Dylid hefyd egluro y bydd dysgu Cymraeg i'r lefel angenrheidiol yn rhan o amodau'r cyfnod prawf.

Ar derfyn y cyfweiliad, fe fydd Cadeirydd y Panel yn nodi ar y 'Ffurflen Asesu Cyfweiliad Adrannol' beth yw gallu'r ymgeisydd yn y Gymraeg. Os nad yw'r unigolyn a benodir yn meddu ar y sgiliau iaith i'r lefel angenrheidiol, bydd hyn yn cael ei nodi ar y ffurflen a maes o law yn y system e-recriwtio. Bydd hyn yn galluogi'r tîm Datblygu Staff i wneud yn sicr bod trefniadau hyfforddi yn eu lle ar gyfer yr unigolyn. Bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn cofnodi'r angen i ddysgu Cymraeg at lefel priodol o fewn amser priodol yng nghytundeb yr unigolyn, gan y bydd yn amod penodi.

CYMRAEG YN DDYMNOL

Ar gyfer swyddi gyda'r gofyn iaith hwn, bydd gallu'r ymgeiswyr yn y Gymraeg ddim ond yn cael ei asesu os teimlir bod dau ymgeisydd yn y cyfweiliad o'r un safon. Byddai gallu yn y Gymraeg wedyn yn cael ei asesu fel modd o wahaniaethu rhwng yr ymgeiswyr cryfaf. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai gallu yn y Gymraeg yn cael ei asesu drwy ofyn i'r ymgeiswyr ateb un neu ddau gwestiwn yn y Gymraeg. Os nad oes aelod o'r panel yn gallu asesu gallu yn y Gymraeg, gellir galw am gymorth gan aelod o staff Canolfan Bedwyr neu Adnoddau Dynol. Cynhelir cyfweiliad ffôn byr, pryd y gofynnir dau gwestiwn safonol i'r ymgeiswyr, a chyflwynir asesiad o'u gallu yn y Gymraeg i'r panel.

HYFFORDDI A MONITRO

Y Cynllun Datblygu

Lle bo cyrraedd lefel sgiliau penodol yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni gofynion y swydd a lle nad yw'r ymgeisydd yn cyrraedd y safon honno, rhaid cael ymrwymiad gan reolwr llinell y sawl a benodir y bydd yr ymgeisydd yn cael ei ryddhau am gyfnod o'i dd/dyletswyddau i ddilyn rhaglen briodol o gyrsiau a ddarperir gan y Brifysgol ar ei g/chyfer. Bydd dealltwriaeth glir rhwng yr ymgeisydd, yr ysgol / adran a'r sefydliad (drwy'r swyddog Adnoddau Dynol) ynglŷn â'r disgwyliaid ar gyfer yr ymgeisydd o ran dysgu Cymraeg. Pan fydd aelod newydd o staff yn ymuno â'r Brifysgol o dan yr amodau hyn, bydd yr aelod newydd o staff, ei reolwr, tiwtor iaith Gymraeg y Brifysgol / aelod o staff Canolfan Bedwyr yn cyfarfod i ddatblygu Cynllun Datblygu addas. Bydd y rheolwr a'r ymgeisydd yn arwyddo'r Cynllun Datblygu er mwyn dynodi eu hymrwymiad iddo.

Hyfforddiant

Bydd y Brifysgol yn darparu ystod o gyrsiau Cymraeg am y cyfnod angenrheidiol er mwyn cefnogi aelodau newydd o staff sydd angen dysgu / gwella eu sgiliau iaith Cymraeg fel rhan o'u cytundeb.

Bydd y gwersi hyn yn galluogi'r aelodau staff i gyrraedd y lefel iaith y cytunwyd arno ar gyfer y Cynllun Datblygu (e.e. drwy basio arholiad iaith berthnasol). Bydd y gwersi iaith hyn yn caniatáu i'r unigolyn ddefnyddio'r Gymraeg yn ei swydd.

Monitro Datblygiad

Ar gyfer y rhai y mae dysgu Cymraeg yn rhan o'u cytundeb gwaith, bydd y broses fonitro yn cael ei chysylltu gyda'r broses cyfnod prawf fel y nodir isod:

Cyfnod prawf 6 mis: Am y chwe mis cyntaf, yr Adran Adnoddau Dynol fydd yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am ddatblygiad pob unigolyn. Y cyfan a ddisgwylir yn y cyfnod hwn fydd cadarnhad fod yr aelod wedi cychwyn ar gwrs hyfforddi ac yn cael ei r/rhyddhau o'i gwaith yn rheolaidd i wneud hynny. Wedi hynny, bydd y monitro'n digwydd fesul blwyddyn hyd nes y bydd y rheolwr a thiwtor iaith y Brifysgol yn gytûn bod yr unigolyn yn defnyddio'r Gymraeg i'r lefel angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei swydd.

Ar gyfer swyddi gyda chyfnod prawf dros 6 mis bydd y broses fonitro yn cyd-fynd â'r adroddiadau prawf blynyddol dros y cyfnod prawf o hyd at 3 blynedd. Bydd rheolwr llinell yr aelod staff perthnasol a thiwtor iaith y Brifysgol yn gyfrifol am arolygu ei d/datblygiad ac yn sicrhau bod y Cynllun Datblygu y cytunwyd arno yn cael ei ddilyn.

Bydd datblygiad aelodau o staff sydd wedi'u cyflogi gyda gofyn iaith penodol yn eu cytundeb yn cael ei adrodd i'r Adran Adnoddau Dynol yn ôl yr angen. Bydd Tîm Datblygu Staff Adnoddau Dynol hefyd yn adrodd am eu datblygiad i Ganolfan Bedwyr.

Rhai sy'n anfoddhaol

Os yw'r adroddiad y mae Adnoddau Dynol yn ei dderbyn yn anfoddhaol, awgrymir y camau canlynol:

- (i) Yn achos **penodiadau gweinyddol**, trefnu cyfarfod rhwng yr ymgeisydd, cynrychiolydd o'r Adran, tiwtor Cymraeg y Brifysgol a / neu Swyddog Datblygu Staff i drafod y rhesymau am y diffyg datblygiad ac yna i gytuno ar raglen adferol ar gyfer yr unigolyn am gyfnod penodol e.e. 6 mis neu flwyddyn. Bydd pob un o'r uchod yn arwyddo datganiad perthnasol i fynegi eu cefnogaeth i'r camau a gymerir [Gweler (ii) isod]. Yn achos **penodiadau academaidd**, trefnu cyfarfod rhwng yr aelod staff, cynrychiolydd o'r Ysgol, tiwtor Cymraeg y Brifysgol a'r Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg i drafod y rhesymau am y diffyg datblygiad ac yna i gytuno ar raglen adferol ar gyfer yr unigolyn am gyfnod penodol e.e. 6 mis neu flwyddyn. Bydd pob un o'r uchod yn arwyddo datganiad perthnasol yn mynegi eu cefnogaeth i'r camau a gymerir. [Gweler (ii) isod].
- (ii) Ymestyn y cyfnod prawf gydag amod cryfach y bydd yn rhaid amlinellu camau pellach ar gyfer ceisio cyflymu'r datblygiad. Gallai hyn olygu e.e. mwy o wersi, mynychu ysgol haf, sesiynau pellach gyda'r mentor iaith adrannol, monitro mwy gofalus.
- (iii) Lle bo diffygion pellach ar ôl 6 mis neu flwyddyn bydd y Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg yn cynnal cyfarfod pellach gyda'r rhai a enwir yn yr adrannau perthnasol uchod ac yn cytuno ar raglen adferol bellach. Lle na fo cynnydd boddhaol wedi'r camau uchod dylai'r rheolwr mewn ymgynghoriad â'r Adran Adnoddau Dynol, edrych a yw'r anallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn amharu ar allu'r unigolyn i gyflawni holl anghenion y swydd ac ystyried, er enghraifft, a ddylai dyletswyddau'r unigolyn gael eu newid.